# ECO'R WYDDFA

Rhif 111 CHWEFROR 1986 Pris 20c

## PWYSIG

**Yn y rhifyn hwn mae Urdd Gobaith Cymru yn cael lle amlwg iawn, nid yn unig ar y dudalen flaen yr 'Eco' ond hefyd ar dudalen 3 ac yn 'Eco'r Ifanc' (tudalennau 10 ac 11). Mae'r wybodaeth a roddir yn eithaf pwysig i bob un sydd â diddordeb yn y mudiad ac yn arbennig yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn Nyffryn Ogwen ddiwedd Mai.**

# ARGYFWNG YR URDD

## BETH YW'R URDD I MI?

CYMRU - CYD-DDYN - CRIST

1922- 1986(?)

BETH YW'R URDD I MI.....?

ARGYFWNG
YNTEU
HER?

APÊL AT GYN-AELODAU, RHIENI A CHYFEILLION YR URDD

YMGYRCH ARIANNOL AR RAN URDD GOBAITH CYMRU

MAE ANGEN CEFNOGAETH ARIANNOL AR FYRDER FYDD YN SICRHAU INCWM RHEOLAIDD A PHARHAOL....HEBDDO FE DDAW'R URDD I BEN........

AI DYMA'N DYMUNIAD?

Sefydlwyd yr Urdd ym 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards ar gyfer plant ac ieuenctid Cymru.

Ei ddelfryd:
Gwasanaeth i Gymru, i Gyd-ddyn ac i Grist.

Mae gan yr Urdd aelodaeth o dros 52,000 o blant a phobl ifanc mewn 1200 o Adrannau ac Aelwydydd. Ceir darpariaeth arbennig ar gyfer y Dysgwyr.

Gweithgareddau'r Urdd:

Eisteddfod Genedlaethol
Gwersylloedd
Neges Ewyllys Da
Cwmni Theatr Ieuenctid
Cylchgronnau

MAE'R CYFAN O DAN FYGYTHIAD!
A FYNNWN WNEUD RHYWBETH?
BYDDAI SICRHAU 5,000 O GYFRANIADAU GWERTH £3 Y MIS YN GOLYGU £257,000 (dan gyfamod) POB BLWYDDYN I'R URDD A YW HYN YN ORMOD I'W OFYN GENNYM.

Fel cyn-aelod .....
... ei ddylanwad a'i gyfraniad gwerthfawr i nifer ohonom yn ein gwaith a'n bywyd.

Fel rhiant.....
... ei werth i'n plant - a'n hwyrion - trwy gyfrwng yr Adran, yr Aelwyd, y Gwersylloedd, yr Eisteddfodau.

BETH YW'R URDD I MI.....?

Dyma gyfle i ateb mewn ffordd ymarferol.

CYFAMODWN
Byddai cyfraniad misol dan archeb Banc gan bob cyn-aelod a rhiant yn sicrhau dyfodol yr Urdd. Am bob £1 a roddir mae'r Urdd yn derbyn 43c o ad-daliad treth incwm.

Bydd eich cyfraniad o...
£2 y mis yn werth £34.32 dros y flwyddyn
£3 y mis yn werth £51.48 dros y flwyddyn
£5 y mis yn werth £85.80 dros y flwyddyn

Apeliwn atoch i lenwi'r ffurflen gyfamod a'i dychwelyd NAWR os gwelwch yn dda.
Mae'r fater o frys - NAC OEDWCH
RHOWCH - ER MWYN YR URDD A CHYMRU

### CWMNI URDD GOBAITH CYMRU
### Gweithred Gyfamod

Yr wyf i ..........................................................................
o ..........................................................................
trwy hyn yn Cyfamodi i dalu i GWMNI URDD GOBAITH CYMRU ar y .......... dydd o .......... bob blwyddyn am bedair blynedd o'r dyddiad hwn, neu yn ystod fy oes, pa gyfnod bynnag a fyddo'r byrraf, y swm o ...... wedi tynnu ymaith y Dreth Incwm yn ôl y raddfa a fo mewn grym ar y pryd, y swm i'w dalu o'm cronfa gyffredinol o incwm trethedig, fel na fo i mi dderbyn unrhyw fudd personol neu breifat oddi wrth y swm uchod neu unrhyw ran ohono yn ystod y naill na'r llall o'r cyfnodau a nodwyd. FEL TYSTIOLAETH o hyn yr wyf yn gosod fy enw a'm sêl y .......... dydd hwn o .......... 19.......

Arwyddwyd, seiliwyd a throsglwyddwyd gan
..........................................................................
ym mhresenoldeb
Enw ..........................................................................
Cyfeiriad ..........................................................................
..........................................................................
Galwedigaeth ..........................................................................

### Archeb Banc

Y RHEOLWR
BANC ..........................................................................
CANGEN ..........................................................................
TALER I GYFRIF URDD GOBAITH CYMRU - CYFRIF CASGLU (51059017) YM MANC MIDLAND CYF., ABERYSTWYTH, DYFED (40-08-09) Y SWM O £.......... (
YN AWR AC YNA YR UN SWM
* YN FISOL AR Y 1af O BOB MIS
* YN CHWARTEROL AR Y 1af O IONAWR, EBRILL, GORFFENNAF A HYDREF
* YN FLYNYDDOL AR Y 1af O ..........................................
(*) Dileer y cymalau amherthnasol
AM BEDAIR BLYNEDD (Y TALIAD OLAF FYDD AR Y ..........................
LLOFNOD ..........................................................................
ENW LLAWN ..........................................................................
RHIF CYFRIF BANC ..........................................................................
CYFEIRIAD ..........................................................................
..........................................................................
MAE'R ARCHEB HON YN DIDDYMU UNRHYW ARCHEB FLAENOROL
SYLW SWYDDFA YN UNIG
PWYSIG: Y CYFEIRNOD I'W NODI GYDA PHOB TALIAD ..........................
DYCHWELER I SWYDDFA'R URDD, ABERYSTWYTH NID I'R BANC

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 111**
**CHWEFROR 1986**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL**: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU**: Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

**GOLYGYDD NEWYDDION**: Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).

**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION**: Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)

**DYDDIADUR Y MIS**: Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (871561)

**FFOTOGRAFFYDD**: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

**TREFNYDD GWERTHIANT**: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

**TREFNYDD ARIANNOL**: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

**GOHEBWYR PENTREFI**: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

**BETHEL**: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

**BRYNREFAIL**: D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)

**CEUNANT**: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

**CWM-Y-GLO**: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)

**DEINIOLEN**: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

**DINORWIG**: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

**LLANBERIS**: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)

**LLANRUG**: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

**NANT PERIS**: Mrs J.E. Elis, 8 Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis 870 733).

**PENISARWAUN**: Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)

**TAN-Y-COED**: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

**WAUNFAWR**: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

**TREFNYDD PLYGU**: Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**CHWEFROR 27**

Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH**
**CHWEFROR 18**
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

### AT GLYBIAU CINIO'R FRO

*Annwyl Gyfeillion,*

*Mae'n draddodiad bellach i Glwb Cinio ardal yr Eisteddfod Genedlaethol estyn croeso i aelodau o Glybiau Cinio Cymru i giniawa gyda nhw yn ystod yr Eisteddfod.*

*Mae ganddom ni Glwb Cinio llewyrchus yma yng Nghasblaidd. Mae Casblaidd 6 milltir o Abergwaun ar y ffordd i Hwlffordd. Fe hoffem estyn gwahoddiad i gynrychiolaeth o Glybiau Cinio eraill Cymru i ymuno gyda ni ar nos Iau, Awst 7, 1986. Mae aelodau ein Clwb Cinio ni yn gymysg, pobl sengl a pharau priod.*

*Mae lle i 160 o bobl eistedd i giniawa yn y gwesty yma. Pris y swper fydd £8.00. Byddwn yn eistedd i lawr i fwyta am 8 o'r gloch.*

*Os oes diddordeb gan aelodau o'ch Clwb Cinio chi ymuno gyda ni, anfonwch ataf cyn Mawrth 20, 1986 i sicrhau lle, "y cyntaf i'r felin, gaiff falu," wedyn cewch fwy o fanylion am y fwydlen a'r siaradwr gwadd.*

*Yn ddidwyll,*
*Alun Ifans a*
*Brian Jones*
*Tŷ'r Ysgol*
*Casblaidd*
*Hwlffordd*
*Sir Benfro*

### CWIS TELEDU

*Annwyl Ddarllenwyr,*

*'Dwi'n siŵr bydd diddordeb gennych i glywed am gwis newydd sydd ar y gweill gan Ffilmiau Eryri. Cwis teledu yw Ffair Dan Gap fydd yn cynnig gwobrau i bob un sy'n cystadlu.*

*Beth yw ystyr Ffair Dan Gap, a sut fath o gwis yw e? Rhyw hen chwarae dyfalu a hap roes fod i'r dywediad Ffair Dan Gap mae'n debyg — a dyma yn y bôn yw ein cwis — rhyw chwaraeon holi a stilio, dyfalu a dewis syml, a chyfle i ennill gwobrwyon go dda!*

*Rydym yn edrych am gystadleuwyr a chynulleidfaoedd hefyd. Bydd y cwisiau'n cael eu recordio ym Mangor ddechrau'r drydedd a'r bedwaredd wythnos ym Mawrth. Telir costau teithio a llety, lle bo angen, i gystadleuwyr.*

*Cysylltwch â ni yn syth trwy lythyr neu gerdyn post.*

*Yn gywir,*
*Marc Evans*
*ar ran Ffilmiau Eryri*
*Bron Castell*
*Stryd Fawr*
*Bangor*
*Ffôn: 361330*

### CYNGOR Y DYSGWYR – RHANBARTH ARFON

*Annwyl Olygydd,*

*Ddydd Gwener, Tachwedd 1af eleni, sefydlwyd cangen rhanbarth Arfon o Gyngor y Dysgwyr. Nod y Cyngor yw hybu cysylltiad rhwng Cymry Cymraeg Arfon a'r dysgwyr yn ein plith ac annog pobl i ddysgu Cymraeg.*

*I'r perwyl yma, mae dau 'glwb cinio' wedi eu sefydlu, un yng Nghaernarfon ac un ym Mangor, er mwyn rhoi cyfle i Gymry Cymraeg a dysgwyr gyfarfod a sgwrsio gyda'i gilydd mewn awyrgylch anffurfiol dros dipyn o ginio.*

*Bydd clwb Caernarfon yn cyfarfod yn nhafarn y 'Crown' rhwng chwarter i un a chwarter i ddau bob amser cinio dydd Iau, a chlwb Bangor yn cwrdd wrth y bar yn Theatr Gwynedd yr un amser bob amser cinio dydd Llun.*

*Ar hyn o bryd, mae nifer o bobl yn cyfarfod yn y ddau le ac fe hoffwn estyn gwahoddiad i'ch darllenwyr ymuno gyda ni.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Manon Williams,*
*Swyddog y Wasg,*
*2 Stryd Fawr,*
*Glasinfryn,*
*Bangor.*

### CYNGERDD ELUSENNOL

*Annwyl Syr,*

*Bydd adran Cerddoriaeth Coleg Prifysgol Bangor yn cynnal cyngerdd elusennol a bydd yr elw ohono yn mynd i wella cyflwr trueiniaid Affrica. Os na all pobl ddod i'r cyngerdd beth am iddynt anfon cyfraniad i'r Adran Gerdd (cyfeiriad isod, neu am unrhyw fanylion eraill).*

*Dyma fanylion y gyngerdd:*
**Chwefror 3, yn Neuadd Pritchard-Jones, Coleg y Brifysgol, Bangor – 8.00 yr hwyr.**
*Rhaglen:*
**Agorawd Meisteringer, Wagner**
**Cyfres Peer Gynt, Grieg**
**5 Spiritual, Tippett**
**Symffoni rhif 5 (lleiaf), Beethoven**
**– Côr a Cherddorfa'r Brifysgol**
**– tocynnau £1.50, £1 wrth y drws.**

*Yn gywir,*
*E. Dafydd,*
*Adran Cerddoriaeth,*
*C.P.G.C., Bangor.*
*Ffôn: 351151 (est. 301).*

### PEDWERYDD PEN-BLWYDD CYMRU DDI-NIWCLEAR
**Chwefror 15-22**

*Cynhelir Rali a Gŵyl yn enw CND Cymru yn Aberystwyth, ddydd Sadwrn, Chwefror 15 i ddathlu'r achlysur uchod.*

*Thema'r diwrnod fydd:* **Cymru Ddifreintiedig**

Gofal nid Gwrthdaro
Triniaeth nid Trident
Bara nid Bomiau.

*Y gobaith yw y gellir cynnal y thema hon drwy gydol yr wythnos ymhob cwr o Gymru. Gobeithir hefyd y bydd y thema amserol yn gymorth i ddenu mwy o gefnogaeth gan fudiadau a chymdeithasau fel Undebau Llafur, Capeli ac Eglwysi, Mudiadau Menywod a Grwpiau Ieuenctid.*

*Bydd y gweithgareddau yn dechrau am 10.30 a.m. gyda Gwasanaeth Cyd-enwadol yng Nghapel Seilo.*

*Yna bydd Gorymdaith drwy'r dref i fyny i Ganolfan y Celfyddydau. Yno bydd:*
Cyfarfod yn y Neuadd Fawr, Bwyd, Gweithdai Trafod ar nifer o bynciau, Stondinau, Meithrinfa ac Adloniant i Blant.

*Cofiwch fod yno! A chofiwch hefyd ddod â baneri — un arbennig i bob sir. Am wybodaeth bellach cysylltwch ag Olwen Davies (0970) 611994.*

## RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r 'Eco'.

**£5** – Mr E.J. Owen, Falmouth er cof am Mrs Megan Owen (gynt o Lanrug); Mrs Grace Jones, 4 Padarn Road, Llanberis; Bob Thomas, Gerallt, Llanrug.

**£3** – Mrs M.P. Jones, 21 Rhydfadog, Deiniolen; Miss Margaret Jones, Foel, Dinorwig; Mrs Dwynwen Roberts, Llanberis; Alun Williams, Bro Waun, Waunfawr; Di-enw, Deiniolen.

**£2** – Mr a Mrs Robert Griffith, Groeslon Isaf, Penisarwaun; Andrew a Cheryl Ward, Porth y Gogledd, Deiniolen; Mrs M.J. Evans, Maes y Dref, Clwt-y-bont, Deiniolen; Eleri ac Eiriona Owen, 29 Stryd Newydd, Deiniolen; Miss Kathleen J. Jones, Prenteg, Deiniolen; Maxine ac Alwyn Lloyd, Tan y Graig, 17 Tŷ Du Road, Llanberis; Glenda ac Alan Williams, Idan House, Llanberis; Mrs M.E. Jones, Ty'n Fawnog, Dinorwig; Mrs Ann Jones, 35 Bro Rhiwen, Rhiwlas; Cyfaill o'r Nant.

**£1** – Mrs Mary Ellen Roberts, Plas Penygwaith (Voelas, Pentre Helen gynt); Mr a Mrs O. Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mr David Thomas, 8 Maes Eilian, Deiniolen; Mrs M.J. Jones, 5 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

## DIOLCH

Diolch yn arbennig i Gyngor Cymuned Llanrug am gymorthdal o **£150**.

**SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

**'INSULAFLUE'**

**Yr Arbenigwr ar leinio simneiau**

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

# ACTORES LEOL



*Dyma fel y cawn weld Rhian Cadwaladr o Lanberis ar y sgrîn fach ym mis Chwefror. Bydd yn actio rhan Heulwen ym mhennod gyntaf y ddrama gyfres 'Deryn'.*

# APÊL
## (UNWAITH ETO)

Os ydych yn dymuno darllen am hynt a helynt cymdeithasau neu'r clybiau yn eich pentref, neu'n dymuno llongyfarch neu gydymdeimlo â chymydog yng ngholofnau'r Eco, yna mae'n bwysig eich bod CHI yn cysylltu â'r gohebydd eich pentref.

Ni ddisgwylir i'r gohebydd pentrefol grwydro o gwmpas i chwilio am y storïau ond yn hytrach bod yn dderbynnydd y newyddion, a'u trefnu yn barod i'w trosglwyddo i'r Golygydd Newyddion Pentref ar amser penodedig bob mis.

Rhaid pwysleisio, yn wahanol i'r papurau dyddiol ac wythnosol eich **papur chi** yw'r Eco.

Chi, y darllenydd sy'n gyfrifol am gynnwys y papur i raddau helaeth. Dylech adael i'r gohebydd wybod, neu os oes rhywbeth o werth cyffredinol yn digwydd, yna gallech gysylltu â'r Golygydd Newyddion Cyffredinol. Gorau oll, wrth gwrs, pe baech yn ysgrifennu'r stori eich hunan. Ond, da chwi, rhowch wybod i ni mewn da bryd (mae'r dyddiadau pwysig wedi eu cyhoeddi ym mhob rhifyn) am ddigwyddiadau'r fro.

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Eco ym mis Mawrth. Dewch yno, ble bynnag y bydd (manylion yn y rhifyn nesaf) a byddwch yn barod i roi eich ysgwydd dan y baich.

Mae'r Eco'n dibynnu arnoch.

## PENDERFYNIAD YR ATHRAWON

Yn eu Cynhadledd Sirol ym Mhlas Tanybwlch ddydd Sadwrn, Ionawr 25 pasiodd aelodau Gwynedd o Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru yn unfrydol i ofyn i'w Cyngor Cenedlaethol i drefnu pleidlais o'r holl aelodau undeb i ofyn iddynt a ydynt yn fodlon ar y telerau yn y cynnig diweddaraf (Canlyniad y trafod rhwng yr undebau a'r gwasanaeth cymodi). Bydd yr undeb yn dal i weithredu ar y raddfa bresennol hyd nes y ceir canlyniadau'r bleidlais.

Ddiwedd Ionawr gwelwyd dwysáu yn ymgyrch UCAC gyda'r streicio yn ymestyn i'r sector gynradd. Effeithiwyd am y tro cyntaf yn yr anghydfod ar addysg ffurfiol rhai o blant cynradd bro'r Eco fore Mawrth, Ionawr 28.

## PLYGU'R ECO

**PA UN?** Y rhifyn nesa
**BLE?** Ysgol Gymuned, Cwm-y-glo
**PRYD?** Nos Iau, Chwefror 27
**FAINT O'R GLOCH?** 6.00
**PWY?** CHI
**SUT 'DACH CHI'N GOFYN?** Yn neis
O CE TA, WELA'I CHI YNO

# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD
# DYFFRYN OGWEN

OHERWYDD effeithiau anghydfod yr athrawon ar drefniadau canghennau Urdd Gobaith Cymru sydd yn awyddus i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol y mudiad yn Nyffryn Ogwen eleni, ac oherwydd fod yr ansicrwydd yn parhau yn dilyn y datganiad diweddaraf, cytunodd Cyngor yr Urdd fel a ganlyn:

1. Bydd y testunau sydd hyd yma wedi bod yn gyfyngedig i ganghennau'r Urdd yn yr Ysgolion nawr yn agored i unrhyw aelod o'r Urdd a fo yn yr oedran priodol. Er enghraifft, gall cangen sydd yn cyfarfod ar ôl oriau ysgol ac yn cael ei harwain gan rieni neu wirfoddolwyr eraill ymgeisio ar y Gân Actol Grŵp 4 neu fwy, y Côr Merched S.A. Blwyddyn 1, 2 a 3 (dan 15 oed), y Côr Bechgyn T.B. Blwyddyn 4, 5 a 6 (15-19 oed) neu'r Parti Dawns Blwyddyn 1, 2 a 3. Ac yn y blaen.

2. Cyfyngir y cystadlaethau Adrannau Pentref i'r Adrannau Pentref a fodolai y llynedd yn ychwanegol at yr Adrannau Pentref a sefydlwyd erbyn 10 Ionawr 1986.

3. Peidio a glynu wrth 31 Ionawr fel dyddiad olaf i ymaelodi – ond **rhaid i bob cystadleuydd gofrestru cyn cystadlu.**

4. Caniatú i aelodau gystadlu heb iddynt, o reidrwydd, fod yn aelodau cangen.

Cyfeirir unrhyw ymholiad at:
**Y Br. Wil Lloyd Davies**
**Prifathro**
**Ysgol y Garnedd**
**BANGOR – (0248 - 352534 yn Ysgol y Garnedd. 362646 – gartref)**

## LLUNIAU NADOLIG

'Rydym wedi derbyn nifer o luniau o bartïon, ciniawau a digwyddiadau eraill yn ymwneud â'r Nadolig ar gyfer y rhifyn hwn o'r 'Eco'. Yn y gorffennol buom o bryd i'w gilydd yn cyhoeddi lluniau o'r fath er eu bod yn ymddangos bum wythnos ar ôl yr Wyl. Cawsom ein beirniadu, yn haeddiannol, gan ein darllenwyr am hyn.

Ond o hyn allan ni fyddwn yn cyhoeddi lluniau Nadoligaidd yn rhifynnau cynta'r flwyddyn newydd.

## EISTEDDFOD CYLCH YR URDD

**YN YSGOL BRYNREFAIL LLANRUG**
**DYDD SADWRN, CHWEFROR 22**

Anfonwch eich ffurflenni cystadlu i Alun Roberts, Ysgol Gynradd y Gelli, Caernarfon, neu i D. Idriswyn Roberts, Ysgol Gynradd Cwm-y-glo, cyn dydd Gwener, Chwefror 7

## COLEG PRIFYSGOL CYMRU ABERYSTWYTH
# GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG I FYFYRWYR ALLANOL

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1986. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cyrsiau yn y pynciau a ganlyn:

**RHAN 1**
Tri phwnc o blith ADDYSG, ASTUDIAETHAU CREFYDD, CYMRAEG, DRAMA (ASTUDIAETHAU THEATR) HANES CYMRU, LLYDAWEG, CERDDORIAETH.

**RHAN 2**
Anrhydedd Sengl mewn CYMRAEG neu Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol: ADDYSG, CYMRAEG, DRAMA, HANES CYMRU, CERDDORIAETH.

Cynigir cynhorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ar y cyrsiau, ynghyd â darlithiau ar gaset mewn rhai pynciau.

Astudir Rhan 1 dros 1-3 blynedd yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd Rhan 2 yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni ymgeisio oddi wrth Hywel W. Jones, Uwch-Ysgrifennydd Cynorthwyol, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwahoddir ceisiadau erbyn 18 Ebrill 1986.

# PENISARWAUN

**Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)**

YSGOL TAN Y COED: Rhoddwyd yr arian a gasglwyd yng Ngwasanaeth Nadolig yr Ysgol a gynhaliwyd yn Eglwys Santes Helen, at apêl Sganner Ysbyty Gwynedd.

Bwriedir prynu disgyrrwr i'r cyfrifiadur gydag arian Noson Goffi'r Rheini gan fod yr Awdurdod Addysg yn gwneud i ffwrdd â'r gwasanaeth tapiau sy'n drafferthus ac araf i'w llwytho.

Cofiwch fod yr ysgol ar gau ddydd Gwener, Chwefror 7 a dydd Llun a Mawrth, Chwefror 10 a 11.

YR YSGOL FEITHRIN: Bore Iau, Rhagfyr 19, mwynhaodd plant bach yr Ysgol Feithrin barti Nadolig ac er nad oedd Siôn Corn yn medru dod i'n gweld y bore hwnnw roedd wedi gadael anrhegion i bob un a chafodd pawb hwyl gwerth chweil. Diolch i Anti Mary am agor drws y Neuadd i ni drwy'r tymor.

Penderfynwyd gohirio'r cyfarfodydd am y tymor yma oherwydd y tywydd oer ac ati, ond byddwn yn ailddechrau yn syth ar ôl Gwyliau'r Pasg. Erfynwn ar i aelodau newydd ymuno â ni yr adeg honno. Grŵp Mam a Phlentyn sydd gennym ac mae croeso i unrhyw blentyn sydd o dan oedran dechrau'r ysgol – waeth pa mor ifanc – ddod gyda'i fam, modryb neu warchodwr. Felly cofiwch os oes gennych chi blentyn bach yn eich gofal fod croeso mawr i chi ddod draw i Neuadd yr Eglwys tua 10 o'r gloch ar Ebrill 8 a phob bore Mawrth ac Iau ar ôl hynny. Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni.

ADRAN YR URDD: Rhagfyr 11 daeth Arwel Jones i gadw cwmni i'r plant ac yn ôl ei arfer cafwyd noson gartrefol braf o ganu carolau, yr hen ffefrynnau – Titw Tomos, Hen Feic Penny Farthing, a.y.b. ac i orffen, stori Nadoligaidd gofiadwy. Edrychwn ymlaen am orig arall yn eich cwmni Arwel, – diolch yn fawr.

Nos Fawrth, Rhagfyr 7 yn Neuadd yr Eglwys cafwyd Disgo gyda Mr Dewi Lake. Bu dawnsio gwyllt a nifer o'r mamau yn ymuno yn y symudiadau! Paratowyd lluniaeth ysgafn yn ystod yr egwyl. Diolch i'r mamau am baratoi'r danteithion a llawer o ddiolch i Dewi Lake.

Nos Lun, Rhagfyr 30 am 6.30 aeth llond bws i Theatr Gwynedd i weld perfformiad 'Go Fflamia'. Yr oedd y mwyafrif wedi mwynhau anturiaethau Idwal, Lliwedd, Elen a Dei Goch yn ceisio dychwelyd tân Draig y Tywydd Teg, er mwyn dod â'r gaeaf parhaol i ben a dod â hapusrwydd yn ôl i fywydau'r Brenin Bochlwyd a'r Frenhines Gleren Mai. I wneud hyn rhaid oedd trechu Penglog y dewin drwg, a chyda cymorth y plant, yn sgrechian nerth esgyrn eu pen fe lwyddwyd i gael tywydd braf yn ôl a phawb yn hapus yn yr haul.

Diolch i Carolyn a Mary am wneud y trefniadau, ac am sicrhau fod hufen iâ i bob plentyn yn ystod yr egwyl.

Gêm 'Chwilen' gafwyd Ionawr 8. Cafwyd 4 gêm ac wedi adio'r marciau yr enillydd oedd Bedwyr.

Ionawr 15 mwynhaodd yr aelodau sgwrs ar Bahrain gan Mr a Mrs Geraint Williams. Newydd ddychwelyd o Bahrain mae Mr Geraint Williams wedi tair blynedd o weithio yno. Roedd gwrando arno'n sôn am y tywydd braf yn codi awydd arnom i gyd hedfan yno o'r tywydd oer a gwlyb a gawn yma. Roedd wedi bwriadu sôn am Thailand hefyd, ond gan nad oedd amser yn caniatâu mae'n garedig iawn wedi cytuno i ddod atom eto rhywbryd ym mis Mawrth. Diolch yn fawr iawn i'r ddau ohonoch ac edrychwn ymlaen am y sgwrs am Thailand.

Y mae'r plant yn dal i sôn am ymweliad Islwyn Williams â'r Urdd y llynedd – cafwyd awr anhygoel o ddistaw – pawb yn llygadrythu ar yr arlunydd medrus yn peintio glas y dorlan. Tybed pa aderyn fydd ganddo eleni, blant? Cawn weld nos Fercher, Ionawr 22 am 6 o'r gloch.

Dyma weithgareddau Ionawr 29 – CHwefror 5: Ionawr 29: Noson yng nghwmni Miss Phyllis Ellis. Chwefror 5: Byd Natur gyda Mr Duncan Brown.



YMDDEOL: Bnawn Gwener, Rhagfyr 20 caeodd Mr Leslie Larsen ddrws Ysgol Gatholig Y Santes Helen, Caernarfon am y tro olaf wedi ugain mlynedd yno fel prifathro. Dyma'r ysgol a fynychodd hefyd pan oedd yn blentyn, hanner can mlynedd yn ôl. Ond ni fydd amser ganddo i segura gan fod diddordeb mawr ganddo mewn mynydda, ffotograffiaeth ac olrhain hanes lleol. Pob dymuniad da i chi Mr Larsen ar eich ymddeoliad.

CAPEL BOSRA: Bore Sul, Rhagfyr 23, am 10.00 perfformiodd plant yr Ysgol Sul stori Papa Panoff. Y llynedd stori am **ferch** o Rwsia, sef Babwshca oedd ganddynt, felly o ran tegwch i'r hogia, cafwyd hanes **crydd** o Rwsia eleni. Neges y stori yn syml oedd: "Ewch a gwnewch y pethau bychain." Da iawn chwi blant am ddysgu eich gwaith yn dda.

Oherwydd eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul cynhaliwyd te parti Nadolig i'r plant ar y cyd â phlant Eglwys y Santes Helen. Fe ddaeth Siôn Corn i'w gweld ac roedd ganddo anrheg a gair caredig i bob un. Diolch i Siôn Corn am alw. I gadw'r plant yn ddiddig cafwyd tri chwarter awr ddifyr yn gwylio cartwnau Walt Disney o dan ofal Eric Jones a Dafydd Evans. Mawr ein diolch am gael defnyddio'r neuadd ac i'r mamau am baratoi parti gwerth chweil i'r plant.

EGLWYS Y SANTES HELEN: Bnawn Sul, Rhagfyr 23 am 3.30 cafwyd Naw llith a Charol dan arweiniad Mr Tegid Roberts. Cafwyd eitemau o garolau a llithoedd gan blant yr eglwys hefyd.

Noswyl y Nadolig daeth cynulleidfa deilwng iawn i'r eglwys i groesawu'r Nadolig. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch Tom Williams o Fôn.

CHWIST: Cynhaliwyd Gyrfa Chwist Nadolig lwyddiannus nos Wener Rhagfyr 20 yn Neuadd yr Eglwys, yr elw at Gronfa Atgyweirio'r Eglwys. Y canolwr oedd Mr S. Griffith a'r enillwyr oedd:

1. Miss D. Jones, Carmel. 2. Mr G. Williams, Y Felinheli. 3. Mrs A. Buckley, Tregarth. 4. Mr T. Williams, Llanllechid. 5. Mr I. Jones, Caernarfon. 6. Mr D. Owen, Penisarwaun. 7. Mrs H. Williams, Y Ffôr. 8. Mrs E.M. Jones, Llanberis. 9. Mrs B. Roberts, Llanberis. 10. Mrs C. Griffith, Y Ffôr. 11. Mrs E.M. Parry, Groeslon. 12. Mrs M.C. Davies, Tregarth. 13. Mr O.E. Thomas, Mynydd Llandegai. 14. Mrs J. Wilkins, Llanberis. 15. Mr I. Lloyd, Niwbwrch. 16. Miss S. Owen, Penisarwaun. 17. Mr W.J. Morris, Carmel. 18. Mrs A. Jones, Caernarfon. 19. Mr C. Williams, Y Ffôr. 20. Mrs S. Morris, Llanddeiniolen. 21. Mr W.R. Jones, Y Felinheli. 22. Mrs M. Williams, Y Ffôr. **Gwobr Teithio: Merched:** Mr T. Williams, Llanllechid. **Dynion:** Mr I. Jones, Caernarfon. **Hanner Uchaf: Merched:** Mrs G. Hughes, Llanddeiniolen. **Dynion:** Y Parch R. Jones, Y Felinheli. **Booby: Merched:** Mrs M. Bolton, Tregarth. **Dynion:** Mr T. Griffiths, Penisarwaun. **Eisteddwyr Hiraf: Merched:** Mrs E. Price, Cwm-y-glo. **Dynion:** Mr C.A. Bolton, Tregarth. **Chwech Llaw:** 1. Mrs V. Jones, Tregarth a Mr T. Williams, Llanllechid. 2. Cyf. Mrs B. Morgan, Bethel a Mr I. Lloyd, Niwbwrch; Mrs E. Williams, Bangor a'r Parch R. Jones, Y Felinheli. **Enillwyr y raffl gyntaf oedd: 1. Mr J.G. Roberts, Carmel. 2. Mr W. Roberts, Llanberis. Yr ail raffl:** 1. Mrs C. Davies, Tregarth, 2. Mrs P. Jones, Bangor, 3. Mr D.J. Williams, Penisarwaun.

Dymuna'r canolwr ddiolch i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth ac am bob rhodd a dderbyniwyd. Cynhelir yr yrfa chwist nesaf ym mis Ebrill.


GWELLA: Dymunwn adferiad buan i bawb sy'n dioddef ar gychwyn blwyddyn newydd fel hyn. Da gennym glywed fod Mr N.Abbot yn gwella wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Deallwn fod Miss F. Williams, Isgaer wedi cael dod adref o Ysbyty Gwynedd ar ôl treulio cyfnod o dair wythnos bron yno wedi iddi gael ei tharo'n wael fore'r Nadolig. Braf iawn oedd gweld Mrs Porter yn cerdded i Siop Gron, a hynny heb y ffôn!

CYDYMDEIMLO: Nid braf yw clywed am brofedigaethau a hithau ond dechrau blwyddyn fel hyn. Bu farw Mr Sam J. Parry, 2 Ffordd Cefn yn 75 oed. Gedy ddau fab Mr Arthur Parry, Gerlan a Mr Maldwyn Parry, Bangor. Bu'r angladd yn Eglwys y Santes Helen a gweinyddwyd gan y Parch Richard Jones, Y Felinheli.

Ychydig cyn y Nadolig bu farw chwaer yng nghyfraith i Mrs Mary Davies, Llys Gwynt, yn Sydney, Awstralia. Daeth tair profedigaeth i ran Mrs M.J. Roberts, 5 Llys y Gwynt – collodd ddwy chwaer yng nghyfraith ac un brawd yng nghyfraith.

Ionawr 3, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Beryl Griffith, mam Mrs Carol Porter, a hithau ond yn 63 oed.

Ein cydymdeimlad dwysaf â chwi oll.



*Tan-y-gaer, Pontrhythallt ar ôl lluwch eira mawr, Chwefror 11, 1929. Tynnwyd y llun gan y diweddar David Arthur Evans, Glyn Arthur.*

DIOLCH: Dymuna Mrs Orwig Pritchard, 10 Llys y Gwynt, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau a'i chymdogion am y cardiau a'r anrhegion tra bu yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ward Glaslyn.

Dymuna Mrs Carol Porter a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth – rhoddir y rhoddion a dderbyniwyd at Ward Macmillan,


Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag
**ERIC JONES**
**17 BRYN TIRION**
**PENISARWAUN**
**Ffôn: LLANBERIS 872421**



AM DDEWIS HAEL A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I
**SIOP GRON**
**A SWYDDFA'R POST**
**PENISARWAUN**
**Ffôn:**
**Llanberis 871272**
CANOLOG I'R FRO



# BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)



GWASANAETH NADOLIG: Pnawn Sul, Rhagfyr 22, cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig y plant a'r bobl ifanc. Yn ystod y gwasanaeth fe gyflwynodd y gweinidog wats hardd i Miss Annie May Williams fel arwydd o werthfawrogiad eglwys Brynrefail o'i gwasanaeth fel athrawes Ysgol Sul am ddeugain mlynedd. Yn ogystal, cyflwynodd Mrs Jennie Roberts dusw o flodau iddi. Diolchodd Miss Annie May Williams yn gynnes i bawb.

Nos Sul, cynhaliwyd gwasanaeth carolau. Trefnwyd y gwasanaeth hwn gan Miss Lowri Prys Roberts. Gwnaethpwyd casgliad arbennig yn ystod y gwasanaeth carolau ac fe gasglwyd £24.40 tuag at brynu sganiwr corff cyfan i Ysbyty Gwynedd, Bangor.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfod y mis yn yr ysgoldy, cafwyd noson ddifyr dros ben yng nghwmni Aled Taylor – aelod o dîm achub mynydda Llanberis yn trafod y gwasanaeth arbennig yma drwy ddangos sleidiau. Darparwyd y te gan Jennie Williams a Jennie Hughes ac fe roddwyd anrheg y mis gan Audrey Roberts ac fe'i henillwyd gan Betty Owen.

CLWB Y MAMAU: Siomedig oedd y nifer a ddaeth ynghyd i gyfarfod cyntaf y flwyddyn – ond cafwyd cyfarfod diddorol dan drefniant Mrs Pat Jones, y hi hefyd a roddodd anrheg y mis a enillwyd gan Helen Jones. Darparwyd y te gan Rhian a Helen Jones. Trefnwyd i alw'r aelodau ynghyd am swper i'r Lake View ar Chwefror 14.

PRIODAS: Ar Ionawr 11 yn Eglwys MC Brynrefail, priodwyd Lorna Williams, 3 Tai Orwig, gyda Haydn Vaughan Jones o Benygroes. Gweinyddwyd y briodas gan y Parch John Morris. Da yw datgan fod Lorna a Haydn yn ymgartrefu yma ym Mrynrefail. Llongyfarchiadau gorau i'r ddau at y dyfodol.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i Pat Mowll, Bryn Llwyd, sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn cyfres o arholiadau yn ymwneud â'i gwaith yn yr Awdurdod Iechyd. Mae wedi cyrraedd safon uchel iawn ac wedi derbyn anrhydedd mewn un pwnc. Mae'n awr yn cario'r llythrennau A.H.S.M. ar ôl ei henw ac yr ydym yn dymuno pob llwyddiant iddi eto yn y dyfodol yng ngwasanaethau rheoli ysbytai.

# PENISARWAUN

*parhad*

Bryn Seiont, Caernarfon.

Dymuna Mr a Mrs R. Griffiths, Groeslon Isaf, hefyd ddiolch am y cardiau ar golli mam Mr Griffith yn Nhregarth.

Derbyniodd Mr Leslie Larsen lu o gardiau yn dymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad. Carai ddiolch o galon i bawb am eu dymuniadau da.

LLONGYFARCHIADAU: Y mae pedair o genod y pentref wedi cyrraedd un ar hugain oed yn ddiweddar. Pob dymuniad da i Carys Wyn, 5 Trem Cynfi, Rhian, Glyn Euron, Yvonne, Gors a Carys Griffith, Groeslon Isaf.

Dymuna Carys Wyn ddiolch i bawb am y cardiau a'r rhoddion.

Pob dymuniad da a phob bendith i Eiriona ac Ieuan Williams, Glyn Euron ar ddathlu eu priodas arian ar Ionawr 25.

Llongyfarchiadau i Anne Paterson ar ei dyrchafiad yn ei swydd gyda'r Frigad Dân.

CLWB CANT: Aeth tua 30 o aelodau'r Clwb Cant i'r Dingles ym Ninas Dinlle, Rhagfyr 17 i fwynhau Cinio Nadolig. Treuliwyd weddill y noson yn canu carolau a chaneuon ysgafn. Diolch i Elisabeth am wneud yr holl drefniadau.

Braf oedd gweld yr ysgol yn llawn eto eleni pan gynhaliwyd Noson Wasael, nos Fercher, Rhagfyr 19 yng nghwmni Arwel. Mwynhaodd y plant a'r oedolion gyd-ganu Carolau a blasu'r pwnsh a'r mins pei. Roeddem yn hynod o falch o weld Mrs Eluned Porter yn bresennol. Diolch unwaith eto i Arwel am ei barodrwydd.

Cofiwch am Bwyllgor Cyffredinol Neuadd y Pentref nos Fercher, Ionawr 29 yn Neuadd yr Eglwys am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH: Hoffai Mrs M.J. Roberts, 5 Llys y Gwynt ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd ym mis Rhagfyr a'r Nadolig.

## ENNILL BAT



*Dafydd Evans, Sycharth yw'r gŵr hapus gyda'r bat criced. Enillodd Dafydd y bat arbennig, sydd wedi ei lofnodi gan chwaraewyr siroedd Morgannwg a Sussex, mewn raffl a drefnwyd gan Tony Roberts (de yn y llun) tafarn Penbont, Llanrug.*

*Rafflwyd dau fat criced, (enillwyd y llall gan Elwyn Hughes, adeiladydd, Llanrug) i godi arian ar gyfer blwyddyn les John Hopkins, un o chwaraewyr Morgannwg.*

*Mae Dafydd yn chwarae criced i glwb Frondinas yn ystod misoedd yr haf — ond ni fydd yn defnyddio'i fat newydd. Caiff hwnnw le anrhydeddus yn Sycharth.*

# CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

GENI: Llongyfarchiadau i John a June Steel, Bryngwyn ar enedigaeth eu mab, Joseph Aeron, brawd bach i Luke.

COFION: Anfonwn ein cofion at Mrs Mattie Jones, sydd yng Nghartref Plas Pengwaith, gan ymddiheuro nad oedd ei henw yn rhifyn diwethaf o'r 'Eco'.

YR URDD: Cynhelir Noson Goffi, nos Lun, Chwefror 3, am 7 o'r gloch yn y Ganolfan. Yr elw at Adran Penllyn.

CINIO NADOLIG: Daeth oddeutu 50 o oedolion i'r Ganolfan nos Iau, Rhagfyr 19, ar wahoddiad merched a mamau ieuainc yr ardal, i fwynhau noswaith arbennig o dda. Cawsom eistedd wrth fyrddau oedd wedi eu haddurno'n hynod o ddeniadol. Gofynnodd Mr Llew Hughes am fendith ar y bwyd, ac yna dosbarthwyd y bwyd a oedd yn ginio Nadolig yn wir ystyr y gair. Yn dilyn cafwyd rhaglen o adloniant ddifyr gan y rhai canlynol: Mrs Ruth Rowlands, Mrs Avril Jones, Delyth Ann Price, Pentir, Ceri Ann Roberts, Caeathro, Lindsey Vaughan Parry, Gwawr Williams, Dylan Williams, Iwan Williams, Deiniolen, Mr R.H. Parry, Mr Idwal Williams a Mr Llew Hughes. Yr arweinydd oedd Mr Dafydd Price, Tan y Graig. Yn ystod egwyl yn y gweithgareddau dosbarthodd Sion Corn anrheg i bob un o'r gwahoddedigion. Diolchwyd yn galonnog i'r trefnwyr am noson gofiadwy gan Mr Llew Hughes. Gwnaed tâp fideo o'r gweithgareddau ac fe'i dangosir yng Nghlwb Pobol y Cwm ddydd Iau, Chwefror 6.

CLWB POBOL Y CWM: Ymunodd yr aelodau â'i gilydd ddydd Iau Rhagfyr 12 i gyflwyno rhaglen gogyfer y Nadolig wedi ei threfnu gan Mrs K. Watkins a Mr R.H. Parry, yn cynnwys carolau, adroddiad gan Mrs L.M. Jones, deuawd gan Mrs Watkins a Miss E. Hughes, scets gan Mrs G. Chick a Mrs Watkins, darlleniad gan Mr R.H. Parry. Roedd te wedi ei ddarparu gan yr aelodau yn cynnwys mins peis a bara brith. Diolchodd y llywydd i Miss Megan Davies am y raffl.

Dydd Iau Ionawr 9 croesawodd y llywydd, Mr Llew Hughes, ein gŵr gwadd, Major A.J. Brown o Fangor, yn cynrychioli Uned Efengylaidd Gogledd Cymru o Fyddin yr Iachawdwriaeth. Gyda chymorth ffilmiau cawsom weld yr amrywiol weithgareddau sy gan y Fyddin i gynorthwyo'r anghennus trwy Ogledd Cymru a'r wlad yn gyffredinol. Mae'r gwaith a wnânt yn haeddu yn sicr pob cymorth a gwerthfawrogiad. Diolchwyd iddo gan Mr R.H. Parry. Rhoddwyd y te gan Mrs L.M. Jones a Miss E. Davies a'r raffl gan Mrs G. Pritchard.

CLOCH ST GABRIEL: Faint tybed sydd wedi canfod nad yw cloch yr eglwys St Gabriel bellach yn galw yr aelodau i'r gwasanaethau? Mae wedi rhoi ei gwasanaeth i'r ardal yn gyson er y ganrif ddiwethaf, ond oherwydd y taro cyson mae wedi gorfod tewi. Ni chroesawyd y Flwyddyn Newydd hon yn ôl yr arfer, a'r oriau mud yn creu hiraeth am fri mawr gwasanaethau diwedd blwyddyn a'r gloch yn taro'r munudau olaf o'r hen flwyddyn. Ar ôl gadael y gwasanaeth ymgynnull ar gornel y stryd i ganu carolau ac emynau hyd oriau mân y bore. Hyderwn y caiff ei hatgyweirio yn fuan a llawer mwy yn ateb ei galwad.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd gwasanaeth carolau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Gabriel nos Iau 12 Rhagfyr. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Aled Jones Williams a darllenwyd y llithoedd gan aelodau o Lanrug a Chwm-y-glo. Yr organyddes oedd Mrs Alwena Hughes Jones, Llanrug. Aelodau Cwm-y-glo oedd yn gyfrifol am y lluniaeth yn yr Ysgol Gymuned a diolchwyd iddynt gan Mrs V. Jones, Llanrug.

Mwynhaodd yr aelodau a'u ffrindiau eu cinio blynyddol yn y Foelas Llanrug nos Iau Ionawr 9. Cafwyd adloniant gan aelodau o Sefydliad y Merched Caernarfon.

Nos Sul, Rhagfyr 19 cynhaliwyd gwasanaeth gan blant y Ysgol Sul yn yr Eglwys. Yr oedd y gwasanaeth dan ofal Mrs Ruth Charles a'r organyddes oedd Mrs Susan Roberts, Talgwynedd.

Nos Wener, Rhagfyr 27 mwynhaodd y plant a'u rhieni eu hunain yn Theatr Gwynedd, Bangor.

GYRFA CHWIST: 12 a 26 Chwefror, (Mercher) yn yr Ysgol Gymuned am 7.30 o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU: i Nigel, Moranedd ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21 ar Chwefror 16. Dymunwn y gorau iddo.

YR URDD: Daeth nifer fawr o blant i gyfarfod cyntaf adran bentref Penllyn, lle cafwyd noson ddifyr a hwyliog yng nghwmni Edward Morris Jones yn canu.

Cofrestrwyd pawb yn ail gyfarfod yr adran a daeth Dewi Lake, ein Trefnydd Sir, yno gyda disgo i'r plant.

Bydd Noson Goffi yn yr Ysgol nos Lun, Chwefror 3, am 7 o'r gloch er mwyn codi arian tuag at yr adran newydd. Dewch yn llu!

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

**Aled Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

**4 Bryn Eglwys**
**Penisarwaun**
**Ffôn: Llanberis**
**871047**

# CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA'

**Ar nos Fercher, Ionawr 15ed cafwyd noson arbennig o ddiddorol yng nghwmni aelodau'r Gymdeithas. Er gwaetha'r tywydd garw, roedd dros drigain o aelodau wedi ymgynnull yng nghanolfan Cwm-y-glo i wrando ar wahanol eitemau wedi eu paratoi gan unigolion o bentrefi'r fro.**

Croesawyd yr aelodau i'r Cwm gan Mr R.H. Parry, a rhoddodd amlinelliad o hanes Cwm-y-glo dros y canrifoedd; pentref wedi ei gloi rhwng pedwar clogwyn a llyn. Eglurodd fod aelodau'r Gymdeithas yng Nghwm-y-glo eisoes wedi cychwyn ar y gwaith o gasglu cyn gymaint o wybodaeth am y pentref ag oedd bosibl. Da deall fod cangen weithgar Cwm-y-glo wedi bwrw iddi o ddifrif gyda'r gwaith o gofnodi hanes eu pentref.

Dilynwyd eitem Cwm-y-glo gan Miss Phyllis Ellis a Mrs Ann Evans o Benisarwaun. Cawsom gan y naill, grynodeb byr o henebion eu hardal ac amlinelliad o'r gweithgaredd a fwriedir ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddod; a chafwyd disgrifiad o ymgais y pentrefwyr i geisio adfer Ffynnon Cegin Arthur gan Mrs Evans. Dangosodd fel y mae'n bosibl ennyn diddordeb plant yn hanes eu bro.

Cafwyd dwy eitem o'r Waunfawr. Helynt rhannu elusen y tlodion cyn sefydlu'r Cyngor Plwy a gafwyd gan Mrs Mary Vaughan Jones; ond yn sicr, cyfraniad mwyaf hwyliog y noson oedd Miss B. Jones yn adrodd hanes ei hen daid, Owen Jones y Crydd yn dod i'r Waunfawr i fyw o Lŷn. Roedd y creadur yn dioddef ffitiau o lewygu, meddai hi; ond ffitiau o chwerthin iach a gafodd yr aelodau wrth wrando ar ffordd ddihafal Miss Jones yn adrodd ei stori.

Diweddwyd y noson gan Miss E. Wyn Jones o Ddinorwig yn rhoi 'hanes byw', sef atgofion ei mam am y diwrnod cyntaf iddi fynd allan i weini. Oherwydd ei dawn fel adroddwraig, cafwyd darlun byw iawn o'r feistres orweddog yn gweddïo ar Dduw i felltithio pawb! Cawsom o Ddinorwig, enghraifft ardderchog o'r math o 'hanes' sy'n parhau'n fyw, gan bwysleisio'r ffaith fod angen recordio a chofnodi atgofion henoed yr ardal ar fyrder.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' ddod o'r wasg bydd Pwyllgor y Gymdeithas eisoes wedi cyfarfod i drefnu rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn dilyn llwyddiant digamsyniol y cyfarfod diwethaf yng Nghwm-y-glo, bydd 'Noson Yng Nghwmni'r Aelodau' yn sicr o fod yn rhan o'r rhaglen honno.

Goeliwch chi mewn cyd-ddigwyddiad? Yn ystod mis Ionawr derbyniais lythyr a lluniau oddi wrth Jack Roberts, 43 Hangar Road, Tadley, Hampshire (gynt o Halford Hill, Llanberis). Dyma ran o'i lythyr:

*"Bu fy mab a'i wraig, Ted a Hazel Roberts, ar eu gwyliau y llynedd yn Ne Affrica. Buont yn ymweld â'r Kruger National Park. Mae lle o'r enw 'Pilgrim's Rest' yno. Yn y fynwent yn 'Pilgrim's Rest' roedd dau fedd — dau o Gwm-y-glo wedi eu claddu yno; un o'r pentref ei hun, a'r llall o Eithin Duon. Pwy oedden nhw? Tybed a oes un o ddarllenwyr yr 'Eco' yn gwybod?"*

Dyma luniau o'r cerrig beddau ym mynwent 'Pilgrim's Rest':

Wythnos union ar ôl derbyn y lluniau hyn o Hampshire, daeth pecyn o nodiadau amrywiol i'm llaw drwy garedigrwydd Mrs Phyllis Jones, Derlwyn, Penygroes. Yng nghanol y nodiadau roedd Marwnad i JOHN D. MORRIS, EITHIN DUON, LLANRUG (gynt): "Yr hwn a fu farw yn 'Pilgrim's Rest', Transvaal, Affrica, Awst 18, 1898 yn 29 mlwydd oed."

Ysgrifennwyd y farwnad gan Thomas T. Jones (Deiniolydd), Cwm-y-glo, ac y mae'n cynnwys 25 o benillion wyth llinell. Argraffwyd y cyfan, gan gynnwys llun o John D. Morris, gan W. Gwenlyn Evans, Caernarfon ar ddalen yn mesur 16 modfedd x 121 modfedd. Dywedir fod y farwnad yn fuddugol yng Nghyfarfod Blynyddol Llanrug 1899. Credaf mai cyfarfod cystadleuol yn cael ei gynnal gan y Temlwyr Da oedd hwn.

Os oes unrhyw un o'r darllenwyr â gwybodaeth am y beddau yn Ne Affrica, yna anfonwch air. Byddai'n ddiddorol hefyd cael gwybodaeth am gyfarfodydd y Temlwyr Da yn yr ardal. A phwy tybed oedd Deiniolydd? Anfonwch eich cyfraniadau yn ysgrifenedig neu ar y ffôn i **Dafydd W. Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 3515).**

# BEDDAU "PILGRIM'S REST"




Gellir dehongli'r geiriad ar rannau o'r cerrig.
**MARY ROBERTS, beloved wife of G.J. Roberts ...?..., CWM Y GLO, North Wales. Died 15 August, 1912, aged 42 years.**

Mae pennill yn dilyn, ond aneglur yw'r ysgrifen. Mae'n dechrau:
**"Un anwyl yn y glyn ...?... roed**
**Mary hoff ...?...**



Ar yr ail garreg mae'r geiriad:
**In memory of JOHN DAVID MORRIS, Born at EITHIN DUON, LLANRUG.**

Mae gweddill y llythrennau yn aneglur iawn.



*John D. Morris, ar y daflen farwnad.*

MARWNAD
I'R DIWEDDAR
JOHN D. MORRIS,
EITHINDUON, LLANRUG (Gynt),
Yr hwn a fu farw yn Pilgrim's Rest, Transvaal, Affrica, Awst 18, 1898,
Yn 29 MLWYDD OED.
*(Buddugol yn Nghyfarfod Blynyddol Llanrug, 1899.)*


nant

Peryn
ydy Robin Pritchard
a Robin Pritchard
ydy JOHN OGWEN



S4C nos Fawrth Chwefror 11eg
*Cyfres ddrama newydd sbon*

Ffilmiau'r Nant
Gronant
Penrallt Isaf
Caernarfon
0286 5722



Y Bistro
Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS
*Ffôn: LLANBERIS 871278*
(Danny a Nerys Roberts)
Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w ddewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis.
Road and Car
Taste of Britain Awards

# DIWRNOD SAETHU

## gan

## Y Gwalch

**BYDDAI'R sgweiar yn dŵad i fyny i saethu ddwywaith yn flynyddol fel rheol; ym mis Tachwedd, ac wedyn hefo parti mawr cyn y Dolig. Dyn tal, main oedd o, ac yr oedd hi'n wybodaeth gyffredinol na fedra fo ddim taro tas wair mewn entri, serch hynny, roedd ganddo fo ei rinwedda, ac mae yna rai yn dal ar gael sydd yn dweud fod rheiny yn rhagori dipyn ar gynneddfa y rhai y maen nhw yn gorfod delio hefo nhw erbyn hyn.**

Roeddan ni yn cael ein rhybuddio am ei ddyfodiad o ymlaen llaw. Byddai'r cipar yn galw yn yr hen ffarm â baich o friga 'larches' ar ei gefn i ddweud wrthan ni am beidio gadael yr anifeiliaid grwydro ymhell oddi wrth y beudai y diwrnod hwnnw. Roedd o wedyn yn gosod y briga mewn ffrámia pwrpasol ar lan y ffos yn y gors fawr, fel y gallai'r saethwyr lechu y tu ôl iddyn nhw o olwg yr adar.

Ganol bora ar y dydd penodedig, byddai'r 'gynnau' neu'r byddigions fel yr oedd mam yn eu galw nhw, yn cyrraedd Lôn Pen Caeau yn eu cerbyda, ac yn cerddad i lawr caeau Cae Hob i'r corsydd. Roedd gan bob un ddau wn, a llwythwr yn cerddad wrth ei gwtyn. Swydd hwnnw oedd cario'r gwn spâr a'i lwytho fo fel y byddai'r galw. A chyn belled ag yr oedd medr yn mynd, roedd y rhan fwya o'r saethwyr yn yr un dosbarth â'r sgweiar. Os y basa chi'n cael un allan o ddeg a digon o lygad ganddo fo i daro hwyaden ar ei hadain yn deg, roedd hwnnw yn werth i'w wylio.

Roedd yna un neu ddwy o ferched yn dŵad yn eu mysg nhw, mewn sgertia llaes a hetia 'Robin Hood'. Mi fyddan yn dewis eu stondina ar wahân ac yn ista ar ffyn plygu, ac am y rhan fwya yn gneud tylla yn y cymyla. Mi dynnodd un ohonyn nhw lygad rhyw gipar, mi rydw i'n cofio wrth drin gwn yn flêr.

Roedd yna lori wedyn yn mynd â chriw arall a'u gollwg nhw fel haid o gonfict wrth Cyfar Rhyda. Rhyw hogia o'r Felinheli oeddan nhw ran fwya, wedi eu prynu am y diwrnod hefo rhyw swlltyn a pheint o gwrw i gerddad yn un rhes ar draws y corsydd hefo ffyn a phastynna, gan wneud gymaint o dwrw â fedra nhw i hel y gwylltfilod i gyfeiriad y gynna. Roedd o'n ddiwrnod o wylia iddyn nhw yn lle stelcian ar benna'r strydoedd ac yr oedd o'n rhoi'r cyfla iddyn nhw ar yr un pryd i weld sut yr oedd y trigolion ymhen arall plwy Llaniolan yn ei gweithio hi.

Roedd o yn ddiwrnod mawr i ninna hefyd, oedd, am y rhan fwya o'r wythnos yn gweld fawr ddim ond buwch ac amball i frân a John Postman, ac acw y bydda nhw yn dŵad i gael cinio, rydw i'n cofio, ac mi fydda mam wedi ffaglu o dan y popty brics yn y gegin fyw, a holwy o dan yn mynd ganddi hi yn y grât fawr yn y gegin ffrynt, a'r ffowntan ddŵr wrth ei ochr o, honno hefo'r tap mawr pres hwnnw, yn stemio ers y bora cynta, a bwrdd mawr cinio dyrnu wedi cael ei dynnu i ganol y llawr a'i osod yn barod hefo'r llestri gora o'r cwpwrdd gwydr, a hwnnw, a'r seidbord, a chloc mawr Llan Isa wedi cael eu sgleinio fel gwydr Waterford.

Ond doedd y twtio i gyd ddim wedi cael ei gyfyngu i'r tŷ. Byddai'r cowt bach wedi ei frwsio a sglent o ddŵr wedi cael ei luchio tros y llechi. Roedd y crafwr traed hefyd wrth y drws yn cael sylw'r brws sgwrio a'r doman o flaen y beudy wedi ei rhiglo a'i thynnu ati, a'i phanu hefo cefn rhaw nes yr oedd ei hochra hi yn edrych fel talcan torth frith. A doedd y ceffyla, oedd yn gorfod aros yn y stabl drwy'r dydd ddim yn osgoi y paratoi. Roeddan nhw wedi eu brwsio a'u sgrifellu nes yr oeddan nhw yn sgleinio fel 'fala Awst, a'u cynffonna nhw a'r mwng wedi eu plethu hefo raffia melyn a cocêd, fel tasa nhw yn barod i gychwyn i brimin y Tair Sir.

Wrth gwrs byddai'r gwaith ar y tir yn mynd i'w grogi, a'r brenin yn cael y diwrnod i gyd, ac mi fydda fy nhad wedi cael colar lân a stydan, fel y bydda fo pan fydda fo'n mynd i ocsiwn ffarm neu i ganlyn y dyrnwr, ac yr oedd o wedi sgwrio'r baw gwartheg oddi ar ei legins, a phannu 'Cherry Blossom' arnyn nhw y noson cynt. A dyna lle y bydda ni yn ista ar ben grisia llofft y gwas yn gwylio'r holl weithgaredda, fel pe tasa ni wedi talu deg gini am ein seddau. Ac mi fyddan ni'n clywad yr hogia yn gweiddi, 'snipe' neu 'cock up' pan fydda yna dderyn yn codi o dan eu traed nhw, ond mi fydda yna amball i hen gampênar yn hedag yn groes tros eu penna nhw ac yn dianc yn groeniach am flwyddyn arall. Ond mi fydda pawb â'i dân ar y lleill, ac mi fydda yna haels yn syrthio fel cenllys weithia ar do y tŷ gwair, ac unwaith mi gawson ninna gawod am ein penna.

Ar yr un pryd, yr oeddan ni a'n llygada yn agorad am adar yn disgyn ymhell a rhai wedi eu clwyfo, achos doedd yr hen gŵn rheiny ddim yn gallu dŵad o hyd i bob un, ac ar ddiwadd y dydd, wedi i bawb glirio, mi fyddan ni yn mynd i lawr i chwilio amdanyn nhw. Ac weithia roeddan ni'n lwcus.

Un tro rydw i'n gofio yn arbennig oedd, pan ddaethon nhw i fyny ar yr unfed ar ddeg o Dachwedd, a bora braf oedd hi, barugog tawal – delfrydol i saethu. Wrth gwrs, ar y dyddiad hwnnw, ar yr unfed awr ar ddeg, pan ddaru'r magnela gau eu cegau yn derfynol yn Ffrainc a rhoi pen ar y lladdfa fawr, roedd o'n arferiad gan bawb roi'r gora i beth bynnag oedd o'n wneud ar y pryd, a sefyll yn dawal a phen-noeth am ddau funud fel arwydd o barch i'r hogia rheiny sydd â'u henwau yn un stribad ar gofgolofnau rhyfal ar hyd a lled y plwyfi. Ac yr oedd pawb drwy'r wlad yn gwneud yn ddiwahân.

Roeddan ni ar y grisia fel arfar yn gwylio'r criw saethu, ac yr oeddan nhw hannar y ffordd ar draws y gors pan ddaeth hi'n un ar ddeg o'r gloch, a dyma ni'n sefyll a thynnu oddi am ein penna. "Be' neith rhain rŵan?" meddai 'nhad. "Ydyn nhw'n cofio dybad?" Ac ar hynny dyma bib yn canu tros y wlad a dyma'r criw yn sefyll yn stond a thynnu eu gorchudd pen yng nghanol y gors a sefyll am ddau funud. Mae rhai petha yn sefyll ym meddwl rhywun yn hir.

Ar ôl yr helfa byddai'r ciperiaid yn cludo'r gêm ar bolion yr un fath â dynion nionod, ac mi fyddan weithia yn mynd at eu hannar i'r tylla mawn ar ôl rhai ohonyn nhw, ac unwaith mi gamodd yna rhyw hen foi i'r ffos ar ei ben a mynd o'r golwg a'i het o yn nofio ar yr wynab.

Wedyn mi fyddan nhw yn dŵad at y tŷ, ac mi fydda'r byddigions yn mynd i mewn gan adael y gweddill i wneud coelcerth ar yr iard a hongian crochan uwch ei phen hi o dri throed. Yna byddai'r hogia a'r ciperiaid yn mynd i eistedd ar breseba'r gwartheg i fwyta eu brechdana, ac mi roeddwn inna yn rhedag yn ôl a blaen yn cyrraedd ac estyn, a chael ceiniog a chwech gan hwn a'r llall i fy nghychwyn i ar y ffordd i gyfoeth. A doedd ddim yn hawdd gwybod p'run ai'r beudy ynteu'r gegin ffrynt oedd y lle gora i fod i wneud fy ffortiwn.

Yn y cyfamsar roedd mam yn cludo a cholaeth yn y gegin ffrynt, ac yr oedd y cwbl yn fwyd ac yn ddiod iddi hi, am ei fod o'n rhoi cyfla iddi ail-fyw am ysbaid y blynyddoedd a dreuliodd yn gweini yn y tai mawr. Erbyn hynny roedd Siani'r Efail wedi cyrraedd yn ei hen gôt silsgin yn drewi o beli camffor, honno fydda hi'n gadw ar gyfar achlysuron. A dyna lle bydda hi yn stwna o gwmpas y popty brics, esgus rhoi chwanag o ffagar o dano fo ac edrych ar ôl y mins peis, ac uchafbwynt ei diwrnod hi oedd cael mynd â phlatiad drwadd i'r gegin ffrynt i gael gair hefo'r 'hogyn bach' fel y bydda hi'n galw'r sgweiar, ac yr oedd hi'n beirniadu safon gymdeithasol y gweddill wrth y ffordd yr oeddan nhw yn glanhau eu traed yn y crafwr cyn dŵad i mewn, ac yr oedd yr hen ddefod flynyddol yn cael ei harfar yn ddi-dor.

Byddai'r gynnau (Hollands yn ddiwahân) wedi eu pentyrru yn erbyn drws y spens, ac wrth i mam fynd heibio, mi fyddan'n gofyn yn ddi-feth,

"Are they safe, Sir Michael?"

"Perfectly, Mrs Williams," ddeuda fo. "They've all been broken."

Ac ar un adag roeddwn i'n methu dirnad sut yr oeddan nhw i gyd wedi bod mor flêr yn malu gynna mor neis.

Wedi gweld fod pob dim yn mynd yn iawn oddi allan byddai fy nhad yn ymddangos, a byddai yn ddyletswydd ar y sgweiar holi yn gynlledd am y tir a'r cnydau a rhif y pennau. Byddai rhywun arall yn siŵr o sylwi ar y medalau yn hongian yn y cwpwrdd gwydr a gofyn pwy oedd eu perchen. Roedd hynny yn rhoi cyfla i fy nhad ddweud hanas ei frawd, ac fel y lladdwyd o yn Ffrainc, gan gofio osgoi sôn am y ffaith fod taid y sgweiar wedi ei hel o o'r wlad am herwhela. Yna byddai mam yn mynd i'r dror i estyn oriawr ei brawd, Rolant, aeth tros y doman hefo wagan yn chwarael Dinorwig yn bymtheg oed, ac wedi gwneud yn siŵr fod y cwmni erbyn hyn yn wybyddus o'r ffaith fod y teulu wedi rhoi yn helaeth o'u gwaed a'u golud i gynnal y sustem ffiwdalaidd, byddai'r sgwrs yn troi at betha mwy cyffredinol, a byddai rhywun arall yn siŵr o sylwi ar yr hen wn un baril wrth ochr y cloc mawr, a gwaredu at ei hyd, ac wedyn mi fydda 'nahd yn olrhain achau hwnnw; mai gwn byddin Belgium oedd o wedi cael newid ei fôr ar ôl y rhyfal, heb fath o 'safety catch' a'i fod o wedi ei brynu o mewn ocsiwn am ddeg swllt ar hugain, a'i fod o'n cario yn isal, ond fod o yn lladdwr heb ei ail, a hyn a'r llall, tra yr oedd o ar yr un pryd yn dal ei wynt ofn i un ohonyn nhw fod yn ddigon ffôl i ofyn beth oedd o yn ei saethu hefo'r ffasiwn erfyn.

Roedd y merched hefyd mor uchal eu cloch â neb – un neu ddwy weithia yn trio tynnu ar mam i ddisgrifio sut fywyd oedd hi wedi ei gael yn gweini, ac hefo pwy, ond yr oedd hi'n dal ei chongl yn eitha hefo'r gora ohonyn nhw. Ac unwaith daeth rhyw hogan ifanc o Ffrainc, Mam'selle Louise oedd pawb yn ei galw hi, gwallt du ganddi a thrwyn retrousse, a llygada duach, a rheiny yn sgleinio, mi fasach yn gallu shefio ynddyn nhw. Roedd Siani Refail wedi dweud wrtha i ei bod hi yno cynta y dois i i'r tŷ, am ei bod hi o holl betha yr holl fyd – yn smocio, a hynny drwy ddal ei sigaret mewn coes hir ddu, a phan es i i'r gegin ffrynt o'r diwadd, dyna lle yr oedd hi wrth y ffenast yn ista yn chwythu mwg yn braf 'run fath yn union â'r hysbysebion De Reskes rheiny, a dyma hi yn fy ngwadd i i ista wrth ei hochr hi i gyfnewid idiomau Cymraeg a Ffrengig am yn hir, ac yn y diwadd roeddwn i wedi mynd yn slaf bach iddi hi tros fy mhen, ac yn gas gen i ei gweld hi'n mynd. Roeddwn i'n gobeithio y basa hi'n dŵad wedyn rhyw dro – ond ddaeth hi ddim.

Erbyn i bawb orffan eu gwydra a mynd allan, roedd y wagan geffyl wedi cyrradd a charthan trosti hi, 'run fath ag un o wageni'r paith, ac yr oedd hi'n llawn o gêm o bob math yn hongian. Mi fydda yr hen fachgen oedd hefo hi mewn gwell lwc na neb. Ar ôl i bawb fynd am y moelydd i chwilio am ieir mynydd, mi fydda fo yn cael dŵad i'r tŷ i sglatsio'r sparion, a sgwrsio am betha'r byd hefo Siani Refail.

Gyda'r nos ar ôl i Siani fynd adra hefo llond ei chwdyn o glennig, mi fyddwn i yn mynd i lawr i'r gors i hel y cetris gweigion, ac yr oedd yno ddwsinau o rai gwyrdd, a choch, a glas, ac mi fyddwn yn llenwi fy mhocedi, ac yr oedd arogl cordeit yn gry arnyn nhw. Wedyn roeddwn i yn eu gosod nhw ar ben drws y gegin fyw, a'u taro nhw i lawr hefo rhyw hen wn corcyn oeddwn i wedi ei gael o'r dre. Bu'r oriau rheiny yn foddion i mi feithrin llygad di-fai pan ddaeth fy nghyfla innau i gario'r hen Felgian un baril, ac amryw ynnau eraill a'u dal nhw'n syth. A phob tro y bydda i'n tanio'r gwn ac arogli'r powdwr, mi fyddaf yn cofio am firi'r diwrnod saethu a chriw y beudy a'r gegin ffrynt yn y Gors, Llaniolan.


**GWERSI TELYN**

i bob oed gan delynores broffesiynl (teledu a cherddorfa)

**Ffoniwch Bangor (93) 352485**

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.**

DIOLCH: Dymuna Mrs Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag at Len dros dymor y Nadolig.

CANOLFAN HAFAN ELAN: Nos Fercher, Rhagfyr 18 cynhaliwyd parti Nadolig trigolion Hafan Elan a gwahoddwyd cyfeillion o bensiynwyr sydd yn arfer mynychu'r cyfarfodydd i'r parti hefyd. Rhoddwyd y danteithion gan Mr a Mrs A. Jones (Warden). Trefnwyd bwffe ardderchog a mwynhawyd y bwyd gan bawb.

Wedi'r wledd cafwyd cyngerdd gan Barti Clychau'r Grug. Cyflwynwyd rhaglen amrywiol a difyr gan y parti fel arfer.

Talwyd diolchiadau i Mr a Mrs A. Jones a'r Parti gan Mr Cecil Williams, 19 Hafan Elan ar ran trigolion Hafan Elan i gyd, ac ar ran y cyfeillion eraill a oedd yn bresennol gan Mrs Myfi Roberts, Rhes Plastirion.

PLAID CYMRU: Daeth nifer dda o'r aelodau i gyfarfod mis Ionawr o'r gangen. Croesawyd y gŵr gwadd, Dafydd Wigley, A.S., gan Leslie Larsen, y Cadeirydd. Cafwyd anerchiad rymus gan Dafydd Wigley gyda thrafodaeth ddiddorol i ddilyn. Croesawyd yn arbennig nifer o aelodau ifanc a oedd yn bresennol. Cafwyd ar ddeall fod Mrs W.A. Jones, Dalar Deg yn mynd i'r ysbyty yn fuan a dymunwyd adferiad buan iawn iddi.

Paratowyd y te gan Vera Williams a Helen Parry. Rhoddwyd y raffl gan Nan Humphreys a Meirwen Lloyd ac fe'i henillwyd gan Meryl Green, Pontrug.

Derbyniodd Dafydd Wigley siec tuag at gronfa Plaid Cymru, etholaeth Arfon, gan Gwyndaf Jones, trysorydd y gangen.

Yn y cyfarfod nesaf disgwyliwn groesawu John Ogwen i'n plith. Bydd y cyfarfod yma yn agored i'r cyhoedd gyda'r mynediad yn 25c. Fe'i cynhelir yn Ysgol Gynradd Llanrug, Chwefror 12 am 7.30. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yno.

DOSBARTHIADAU'R W.E.A.: Nos Lun, Rhagfyr 16 darfu darlithoedd yr WEA am y gaeaf. Cafwyd cyfarfodydd difyr iawn ac roedd nifer dda wedi ymuno â'r dosbarth eto eleni. Y darlithwyr oedd Dafydd Whiteside Thomas, a fu'n darlithio ar agweddau ar hanes lleol, ac Iwan Roberts fu'n darlithio ar Hel Achau. Diolchwyd yn gynnes iddynt yn y cyfarfod olaf gan Mrs Nansi Lovatt.

GWELLHAD: Dymunwn wellhad buan i Mrs Eirwen Rowlands, Llys Forgan sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar.

YN YR YSBYTY: Bu nifer o drigolion yr ardal yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar – Miss Eirlys Whiteside Jones, Hedsor Villa, Ponrtrhythallt ; Mrs Gladys Jones, 7 Hafan Elan; Mrs Elen Williams, 6 Hafan Elan; Mrs W.A. Jones, Dalar Deg a Mrs M.E. Williams, Delfryn. Yr ydym yn dymuno adferiad buan i bob un ohonynt.

CYMDEITHAS UNDEBOL CAPEL MAWR: Nos Iau, Ionawr 16 cyfarfu Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr. Y Llywydd oedd Mrs Nansi Roberts. Y tro hwn cafwyd noson o 'Hawl i Holi' yng nghwmni Mrs Nansi Lovatt, Mrs Iola Butler, Miss Malan Roberts a Mr Dafydd Whiteside Thomas. Yr holwr oedd y Parch. Aled Jones Williams. Cafwyd noson ddifyr iawn. Talwyd y diolchiadau gan y Parch. John Morris. Rhoddwyd y te gan Mrs Alf Parry, Mrs Nansi Roberts a Mrs Mair Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ionawr 30 yng nghwmni Mrs Nansi Lovatt.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Michael Lovatt, mab Mr a Mrs G.W. Lovatt, Brwynog ar ei briodas â Rajni Sharma o ganolbarth Lloegr yn ddiweddar.

MEDAL YMERODRAETH PRYDAIN: Llongyfarchiadau i Mr Tom Parry ar gael ei anrhydeddu â Medal Ymerodraeth Prydain yn rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd. Derbyniodd yr anrhydedd am ei wasanaeth fel dyn tân i'r Awdurdod Ynni Atomig yn Risley, Sir Gaer am ddeng mlynedd ar hugain.

Brodor o Lanrug yw Tom Parry. Mae'n fab i'r diweddar Mr a Mrs Harri Parry, Y Dolwen gynt ac yn briod â Betty Pritchard, Pen Sarn. Mae ganddynt ddwy ferch, Gwyneth a Helen ac un ŵyr, Gareth.

Nid hon yw'r fedal gyntaf a dderbyniodd Tom Parry; yn ystod yr Ail Ryfel Byd gwasanaethodd ar yr HMS Rodney a chymerodd ran yng ngweithgareddau D-Day a'r glaniadau yng Ngogledd yr Affrig.

PARTI CLYCHAU'R GRUG: Ar ôl cyfnod prysur iawn o ddiddanu canghennau Merched y Wawr, cymdeithasau capeli a chartrefi henoed, bu'r aelodau allan am eu cinio blynyddol i'r 'Gazelle', Porthaethwy yn ddiweddar. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn a braf oedd cael cwmni Mrs Nansi Lovatt. Mae'r parti wedi derbyn gwahoddiad i ymddangos ar y rhaglen 'Am y Corau' sy'n cael ei recordio ym mis Chwefror. Pob hwyl iddynt yn erbyn Côr y Pwll Glas, Clwyd.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Miss Buddug Williams, Glan Padarn yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Mr Glyndwr Williams yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Nesta Jones, 1 Bro Rhythallt ar golli ei chwaer yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Ionawr 14 yn Ysgol Gynradd Llanrug treuliwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones, Mrs Jean Plemming, Mr David Whiteside Thomas a Mr Iwan Roberts, panel Seiat Holi a drefnwyd gan y gangen leol. Holwyd y panel gan Miss Phyllis Ellis. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Bethanne Williams, Llywydd y Gangen. Cafwyd cwestiynau amrywiol, rhai amserol a phwysig – cwestiynau'n ymwneud ag Addysg ac â'r Urdd – a rhai mwy personol e.e. 'Pwy hoffech ei gyfarfod pe caech ddewis?' neu 'Beth wnaech chi â deng mil o bunnau?' Digri a hwyliog oedd yr atebion.

Diolchwyd i'r panel gan Miss Megan Humphreys ac i'r chwiorydd a baratôdd y baned de – Mrs Ann Lloyd Griffiths, Mrs Gwenda Roberts, Mrs Margaret Jones a Mrs Joyce Jones gan Mrs Meryl Green.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Chwefror 11 a'r gŵr gwadd fydd y Parch. Harri Parri.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth, Ionawr 21 cafwyd sgwrs hynod ddiddorol gan y Dr Eirwen Gwynn.

Llywydd y cyfarfod oedd y Parch W.O Roberts a thalwyd diolch i'r Dr Gwynn gan Mrs J.C. Williams, Bod Fair.

LLONGYFARCHIADAU: i John, mab hynaf Mr a Mrs Arthur Williams, Fferm Cefn Isaf ar ei ddyweddïad â Nia, unig ferch Mr a Mrs Cledwyn Jones, Minffordd, Ffordd Tŷ Du, Llanberis ar Ionawr 20.

## DRAENOG

**Wrth ymlwybro o'r Bryngwyn i Geunant y dydd o'r blaen, sylwais ar nifer o ferched ieuanc (!) yn sefyllian ar ochr y ffordd. Roedd ambell i gar yn aros gyda hwy i dynnu sgwrs, ond aros fel delwau yn eu hunfan wnâi'r merched. 'Sgwn i pam?**

## GOLWG AR Y FRO – 1856




Mae'n ddiddorol i ddarllen disgrifiad o fro fel yr oedd yn yr amser gynt, a phan fo'n ddisgrifiad gan dramorwr, y mae'n fwy diddorol fyth.

Dyna'r bleser sydd ar gael yn y llyfr newydd 'An Autumn in Wales' gan Julius Rodenberg, Almaenwr a ddaeth i Gymru yn 1856 i ddod i 'nabod y wlad a'i phobl a'i thraddodiadau, ac i ddysgu'r iaith.

Daeth Rodenberg o Lerpwl i aros ar fferm rhwng Llanfairfechan ac Aber, ac oddi yno fe ymwelodd â Chonwy, Dwygyfylchi, Llandudno, Castell Penrhyn, Llandegai, Bangor, chwareli'r Penrhyn, glan Menai a'r pontydd, Caernarfon, Llanberis, Yr Wyddfa, Capel Curig, Betws-y-coed, Corwen a Llangollen. Ceir disgrifiadau'r trefi a'r pentrefi hyn, y rhaeadrau, cestyll a chromlechi, yn ogystal â'r trigolion a chymeriadau, teithiau yn y goets fawr, arferion a thraddodiadau, a chasgliad helaeth o storïau gwerin Cymru.

Cyhoeddwyd y llyfr hwn am y tro cyntaf yn Saesneg yn 1985 gan D. Brown Ltd., Pen-y-bont a'r Bontfaen (Morgannwg): 176tt., gyda 27 llun; pris £6.50. Mae'r llyfr ar gael yn siopau llyfrau, ac yn Wern Farm Garden Centre, Llanfairfechan. Os oes problem, cysyllter â'r cyhoeddwyr, neu W. Linnard, Amgueddfa Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd.


**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON**

LLANRUG

**(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175

neu Bangor 51981



**Ar gyfer pob parti . . .**
**I ddathlu pob achlysur . . .**



**Gwesty'r Foelas**

(Richard a Meirwen Thomas)

**Llanrug**

*Ffôn: CAERNARFON 4652*

# TALWRN Y BEIRDD

**Ar ddechrau mis Ionawr roedd tîm Llanrug i fod i gystadlu yn Neuadd Mynytho yn erbyn y tîm lleol, ond oherwydd y tywydd garw, bu'n rhaid gohirio'r ornest. Ail-drefnwyd y recordio yn Llanerchymedd nos Fawrth, Ionawr 21. Darlledwyd y rhaglen nos Sul, Ionawr 26 a'i hail-ddarlledu amser cinio ddydd Mawrth, Ionawr 28. Cyfartal fu'r ornest, gyda'r ddau dîm yn ennill 87 o farciau. Mae Llanrug wedi cystadlu ddwywaith yn y gyfres bresennol, ac wedi ennill sgôr o 87 marc y ddeudro. Rhag ofn i chwi golli rhai o 'berlau'r' rhaglen, dyma gynnyrch beirdd Llanrug. Aelodau'r tîm oedd Tony Elliott, Len Jones, Twrog Jones, Iolo Huws Roberts, John Roberts a Dafydd Whiteside Thomas.**

1. Cwpled caeth gyda'r odlau: cau/minnau
**Yn y 'catch' a'r drws 'di gau –**
**Amen – a gwraig i minnau!**

2. Englyn yn cynnwys 3 math o gar.
**'Austin' i'r werin lysti – a 'Rover'**
**I'w refio i'r crachgi;**
**Ond sleifar o 'Ferrari',**
**O Dduw Dad, yw 'mreuddwyd i.**

3. Limrig – Edrychais trwy'r ffenest un bore.
**Edrychais trwy'r ffenest un bora**
**Yn rhinwedd fy swydd yn plismona**
**Gwelais Magi a Best**
**A thwll yn ei fest;**
**Maniffest-oedd yn cuddio'u pechoda'.**

4. Hir a thoddaid yn cynnwys y llinell: "Yno mae siarad am hen amserau."
**Y Llyfrgell Genedlaethol.**

**Yno mae siarad am hen amserau,**
**Am waed hen arwyr, am hud erwau;**
**Dwylo hanes sy'n troi'r tudalennau;**
**Daw ias o'u darllen gan sisial enwau,**
**Cof yr hil mewn cyfrolau – i'n cynnal**
**Yn noson anial ein heinioes ninnau.**

5. Pennill Ymson: Dyn a gollodd ei slipars.
(Hen lanc a gollodd ei slipars)
**'Roeddan nhw gen i neithiwr pan alwodd Gwenhwyfar**
**– mae'n od fel y daw hi bob nos Lun a nos Wenar –**
**Sgwn i be di bwriad yr hen ferch, gysetlyd?**
**Y hi a'i gast fach: ma' hi'n ddel ac yn fwythlyd.**
**YR AST! Wel, go damia'r gnawas!**
**Rwan dwi'n cofio mai yn yr un dde y gnath hi ei busnas.**

6. Cywydd (heb fod dros 12 llinell): 'Eira'.
**Yn ffwrn nos, pan fferrai nen,**
**Yn wynias gwnaed gaenen**
**Crisial fu yno'n crasu,**
**Y fron eisennwyd o fry**
**A haen wen – eisin y wig**
**A'i dail – fel cacen 'Dolig.**

**Heddiw'r wawr, i'r ddiwair ael,**
**Anghyffwrdd ac anghaffael,**
**Wele daeth llafn o olwyn**
**A'i llinell gyllell i'r gwyn,**
**A haid o'r plwy' – sledwyr pla –**
**Yn hastus i loddesta.**

7. Englyn Beddargraff: Dyn Lolipop.
(Dynes Lolipop)
**Gras fo i'r ddynes groesi – yn yr iâ**
**Fe groesodd rhy handi,**
**I le lle mae'i loli hi**
**Yn dueddol o doddi.**

8. Pennill Dychan: Pobl Neis, neis.
**Mae 'nghalon yn gwaedu drostynt,**
**Ystyriwch eu problem 'mwyn dyn;**
**Fod rhaid i bob un fynd i gysgu**
**'N run gwely â'i ben ôl ei hun.**

---

9. Cywaith Rhydd: Telyneg 2 bennill: 'Cymdogaeth'
**Wern Uchaf, Buarth Bach a'r Foel –**
**clytwaith byw o undod**
**ar garthen.**
**Sawl tro y crwydrais yn gysglyd**
**hyd wniad clos eich cloddiau terfyn,**
**a dilyn llwybrau cyfarwydd y pwythau**
**a'ch tynnai ynghyd**
**ac a'ch daliai at yr un brethyn.**
**A phan chwythai'r hin ei bygythion,**
**cefais suddo'n fodlon yn y cynhesrwydd gwarchodol.**

**Wern Uchaf, Buarth Bach a'r Foel –**
**clytiau briw ac unig**
**ar y garthen.**
**Crwydraf unwaith eto cyn cysgu,**
**drwy dorchau'r edafedd llac**
**sydd fel mieri hyd y cloddiau a'r llwybrau,**
**yn eich gwahanu**
**ac yn eich rhyddhau o'r brethyn.**
**A heno, teimlaf iasau'r dwyreinwynt yn y bylchau**
**yn herio breuder y gwead.**

10. Cân (dim mwy na 30 llinell): 'At Achos Da'
**Mae'n ddiwrnod gwerthu fflagia – eto – a dyma fi**
**Unwaith yn rhagor wrth ddrws eich tŷ**
**Yn curo, yn nerfus, a gofyn am rodd;**
**Dwi'n siŵr bydd yr achos hwn wrth eich bodd.**

**Y fi fy hun bach yw prif gasglwr y fro,**
**Y fi, y diniwed, sy'n methu deud "no";**
**Y fi fu yn casglu at bob achos gwerth chweil,**
**A chadw cofnodion o'r symiau'n fy ffeil.**

**Cofrestrwyd pob achos 'lusengar yn Lerpwl,**
**A chadw cyfrifon pob mudiad yn fanwl;**
**A dyma i chi rai o'r achosion fu'n elwa**
**Oherwydd 'mod i'n dod o amgylch eich drysa':**

**Y Gyngres Gwarchod Teimladau Mulod**
**A Chymdeithas Protestio Rhag Piclo Nionod;**
**Y Cyngor Ymchwilio i Sythu Bananas**
**A Chorff Datblygu Mwy o Wyliau i Ditiars:**
**Ac achos wrth fodd calon mewn cymdeithas anwaraidd**
**Yw Mudiad Chwarae Teg i Feibion Mamau Ffeministaidd;**
**A beth am Gartrefi i Wŷr Dan y Fawd i Gael Lloches?**
**Rhowch geiniog neu ddwy – neu fwy gydag 'Access'.**

**Pardwn? At be dwi'n ei hel?**
**Heddiw 'ma? O! mi ddeuda i del:**
**At Gymdeithas Genedlaethol i Gynorthwyo Pobol Rhag Colli eu Tymer Hefo Casglwyr Tuag at Achosion Da, musus,**
**Ac mi deudwn i o i gyd eto wrtho chi tasa gen i ddigon o wynt, mewn un gair: 'creisus'!**

**Fflagia, pinna', bajis, sticyrs!**
**Stwffiwch y cwbwl i mewn i'ch bin;**
**Rŵan, rhowch eich arian yn y pot**
**I mi gael gwared â'r blydi lot.**

11. Englyn Cywaith: 'Genefa'.
**Er gwae'r gwynt niwcliar gerwin – yno geir**
**O'r Tŷ Gwyn a'r Kremlin;**
**Erom deil mamau'r Comin**
**A'u her i liniaru'r hin.**

# LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

Cliff Bere, **Pennod yn Hanes Milwr.** Gwasg ar Ynys Newydd. £3.95.
*Nofel sy'n ymdrfin â'r sefyllfa yng Ngweriniaeth Cymru wedi rhyfel niwclear.*

A.D. a Glenda Carr, **Cestyll Gwynedd,** Cadw, £1.50.
*Golwg ar gestyll Gwynedd o safbwynt eu hanes a'u hadeiladwaith.*

CYFRES RWDLAN. Angharad Thomas, **Mali Meipen.** Y Lolfa, 95c.
*Dyma'r chweched llyfr yng Nghyfres Rwdlan.*

Elgan Philip Davies, **Trwy Goed y Cedyrn.** Y Lolfa, £1.75.
*Llyfr sydd yn gêm — gem sydd yn nofel! Dyma'r antur aml-ddewis cyntaf yn y Gymraeg.*

Alun Ifans, **Cofio,** Gwasg Gomer, £2.75.
*Cyfrol ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol uwchradd. Ynddi, cyflwynir gwybodaeth am ddeg ar hugain o enwogion Cymru.*

T. James Jones. **Pan Rwyga'r Llen.** Gwasg Carreg Gwalch, £2.25.
*Drama sy'n dangos y llen yn rhwygo ym mywyd pob un o'r saith cymeriad sydd ynddi.*

Tom Jones. **Dyddiadur Ffarmwr.** Gwasg Gomer, £3.00.
*Cofnod o'i amserlen brysur gan ffarmwr sy'n rhuthro rhwng 'mil o alwadau' fferm a phwyllgor.*

Alfred Leutscher, John Griffith Williams (Addas.). **Tro Trwy'r Tymhorau.** Gwasg Cambria, £5.75.
*Llyfr sy'n dangos pa anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn y gwahanol gynefinoedd yn ystod y gwanwyn, yr haf, yr hydref a'r gaeaf.*

Dyfnallt Morgan. **Babi Sam.** Y B.B.C. a Gwasanaeth Archifau Gwynedd, £4.00.
*Cyfrol i ddathlu 50 mlynedd o ddarlledu o Fangor.*

*Grace Roberts.* **Sgyrsiau Hogiau yn Bennaf.** Gwasg Carreg Gwalch, £1.85.
*Casgliad o sgyrsiau ac erthyglau a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar y rhaglen radio Merched yn Bennaf, ac yn y Chester Chronicle.*

Gwyn Thomas. **Arfer Cyffelybiaethau.** Tŷ John Penry, £1.30.
*Astudiaeth o'r ffyrdd a ddewisodd Duw trwy'r canrifoedd i ddweud rhywbeth amdano'i hun ac am fywyd wrth ddynion. Darlith Dyfnallt, 1984.*

R. Gordon Williams. **Atgofion Plentyndod.** Cynghor Sir Gwynedd a Gwasanaeth Llyfrgell, 60c.
*Darlith Flynyddol Llyfrgell Penygroes 1983-84 lle mae'r awdur yn bwrw golwg yn ôl ar ei blentyndod yng ngogledd Cymru.*


**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
***PEN CIGYDD Y FRO!***
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU**
**A DEWCH ATOM NI!**

**WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL**
**GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF**
**ATGYWEIRIO TAI GWAIR**
**E. PUGH**
**WELDING & FABRICATING**
32 GLANFFYNNON
**LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 5394

**EMYR JONES**
PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH
INSIWLEIDDIO
**44 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**Caernarfon.**
**3513**

**GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF**
**Linda**
MOBILE HAIRDRESSER
Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch

**CAERNARFON 3674**
i drefnu amser

# ECO'R IFANC

## SGWRS AM GYFFURIAU

## YMATEB SWYDDOG LLES

**"Ystyriwch yn ddifrifol y posibilrwydd fod eich mab neu eich merch chi yn arogli glud neu'n defnyddio cyffuriau."**

Dyma'r neges syber oedd gan P.C. Oscar Evans yn ystod ei ymweliad â rhieni plant dosbarthiadau 5 a 6 Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Trefnwyd y cyfarfod gan Mr Elfyn Thomas, y prifathro, fel dilyniant i ddiwrnod cyfan o ddangos ffilmiau a thrafod arogli toddyddion a defnyddio cyffuriau gyda disgyblion hynaf yr ysgol. Gan i dros 150 o rieni ymateb i'r gwahoddiad adlewyrchwyd y pryder a'r angen am ragor o wybodaeth. Mae'n sicr i'r brofedigaeth drist yn Neiniolen ddod â'r neges gartref, fod y broblem gymdeithasol gyfredol yma ar gynnydd yn ein cymdeithas. Nid yw maint y broblem yn wybyddus ond mae sicrwydd fod cyffuriau megis cannabis, ar gael yn ein pentrefi ac fod temtasiynau cynyddol yn wynebu ein pobl ifanc.

Yn ôl P.C. Evans, sy'n Swyddog Cyswllt Ysgolion gyda Heddlu Gogledd Cymru, yr unig ateb yw cydweithrediad agos rhwng rhieni, yr heddlu a'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth. **Rhaid** i rieni ystyried y posibilrwydd, pa mor wrthyn bynnag fo hynny, fod eu mab neu ferch yn, neu wedi ymwneud ag arogli glud neu o bosibl cyffuriau. Dylai rhieni holi eu plant yn fanwl a dylai unrhyw wybodaeth, pa mor bitw bynnag, gael ei drosglwyddo i'r heddlu. Delir gydag unrhyw wybodaeth yn hollol gyfrinachol gan mai nid erlyn yn y llysoedd yw y prif fwriad ond osgoi i'n pobl ifanc gychwyn ar y llwybr llithrig i ddibyniaeth lwyr. Y rhai sydd angen eu dwyn i gyfraith yw'r gwerthwyr (pushers), y rhai sy'n elwa ar ddibyniaeth heb ystyried y canlyniadau cymdeithasol.

Teimlad unfrydol y cyfarfod oedd y dylai holl ddisgyblion yr ysgol gael cyfle i wylio'r ffilmiau (er gwaetha'r erchylldra) i bwysleisio y gall arbrofi gyda glud neu gyffuriau arwain i fywyd o ddibyniaeth llwyr. Yn ychwanegol, dylai rhieni'r plant iau gael yr un cyfle i weld a thrafod.

Bwriadwn, drwy gyfrwng 'Yr Eco', gyfleu rhagor o wybodaeth am y broblem ynghyd â chrynodeb o'r sumptomau y dylai rhieni fod yn edrych allan amdanynt.

**Gwyndaf Jones**
**(Uwch Swyddog Lles)**

## COFIWCH

**Os oes gennych unrhyw wybodaeth, pa mor bitw bynnag, neu'n angen gwybodaeth ynglŷn â'r broblem yma, dowch i gysylltiad ag unrhyw un o'r canlynol:**
**P.C. Oscar Evans (Swyddog Cyswllt Heddlu) Caernarfon 3333, Gwyndaf Jones (Uwch Swyddog Lles) Caernarfon 4121 est 2215, W.E. Thomas (Prifathro Ysgol Brynrefail) Caernarfon 2381.**

# BARN

**Er fy mod yn falch iawn o weld ffilmiau o'r math yma yn cael eu dangos yn yr ysgol, y ffaith drist yw fod rhaid i fachgen ifanc o'r ardal golli ei fywyd cyn i ni gael cyfle i weld y ffilmiau. Roedd yr ymdrech yn un gymeradwy ond yn anffodus, yn fy meddwl i nid oedd y ffilm yn ddigon erchyll, ac ni lwyddodd i daro'r neges adre mor llwyddiannus â sy'n bosib. Ond hyderaf fod hyn yn ddechrau ar ymgyrch bwysig i geisio dileu yr arfer o anadlu glud a defnyddio cyffuriau yma.**

**Bethan Jones, 6(11)**

—

Roeddwn yn falch o gael y cyfle hwn i gael gwybod mwy am effeithiau cyffuriau ac anadlu toddyddion. Ond er iddo gael rhywfaint o effaith arnaf, teimlaf y dylir dangos ffilmiau llawer mwy erchyll er mwyn dychryn yr ifanc ddigon.

**Delyth Huws, 6(11)**



**Gwnaeth Mr Oscar Evans a Mr Gwyndaf Jones y neges yn glir i ddisgyblion yr ysgol, am gyffuriau a thoddyddion. Ond nid oedd y ffilm yn ddigon brwnt; ac nid oedd yn dangos digon o effeithiau cyffuriau ar berson.**

**Steven Riley, 6(11)**

**O'r diwedd mae'n ymddangos fod y broblem gynyddol o gamddefnyddio toddyddion a chyffuriau yn ein cymdeithas yn dechrau amlygu ei hun i'r wyneb. Mae arwyddion calonogol iawn fod pobl ifanc a rhieni'r fro yn awyddus i ymdrin â'r broblem, i dderbyn mwy o wybodaeth ac i geisio wynebu'r broblem yn ymarferol.**

**Mae 'Eco'r Wyddfa' yn awyddus i wneud ei ran drwy amlygu datblygiadau, gwybodaeth a barn ynglŷn â'r maes yma. Gofynnir i chwi, y bobl ifanc, yn rieni ac yn aelodau o'r gymdeithas i ystyried yn ddifrifol yr hyn a fynegir yma. Byddem yn falch iawn o unrhyw ymateb neu sylw yn ymwneud â'r testun.**

# YMATEB YR IFANC

**DYDD Mercher, Ionawr y pymthegfed, daeth Mr Oscar Evans, Swyddog Cyswllt yr Heddlu, a Mr Gwyndaf Jones, Uwch Swyddog Lles, i ddangos dwy ffilm fideo fer ar doddyddion a chyffuriau i ddosbarthiadau pump a chwech yr ysgol.**

O'r diwedd penderfynwyd gwneud rhywbeth ynglŷn â'r broblem ddifrifol yma sydd ar gynnydd yn ein hardal ers tipyn bellach, ond yn anffodus dim ond y disgyblion hynaf a gafodd weld y ddwy ffilm, ac rwy'n sicr y dylai plant ieuengaf yr ysgol gael eu gweld neu o leiaf gael trafodaeth ynglŷn â'r math yma o broblem.

Yn y ffilm gyntaf dangoswyd bachgen a fu farw ar ôl camddefnyddio toddyddion. Bachgen iach a galluog, ond yn raddol dirywiodd ei waith a'i ymddangosiad, ac yn y diwedd dod ynghlwm â'r math yma o bethau nes marw o'u heffaith.

Yn yr ail ffilm dangoswyd cyffuriau yn cael eu chwistrellu i gyrff, ac fel yr oedd rhaid i'r bobl yma eu cael er mwyn bod yn uchel eu hysbryd, gan eu bod bellach yn methu byw hebddynt. Hefyd gwelwyd archwiliad ar gorff marw merch tair ar hugain oed a fu farw o ganlyniad i gyffuriau.

Mae'n rhaid i mi gyfaddef bod y ddwy ffilm yma yn ddigon i godi ofn ar unrhyw berson yn arbennig yr ail ffim, ond nid wyf yn meddwl eu bod yn ddigon effeithiol i berswadio person sy'n camddefnyddio toddyddion neu'n cymryd cyffuriau i'w hatal rhag eu cymryd mwyach. Mewn gwirionedd ni ddangoswyd unrhyw beth a wyddom o'r blaen am y broblem yma.

Gobeithiaf yn wir mai dim ond cychwyn yr ymgyrch ar y broblem ddifrifol yma yw hyn, a hefyd y bydd plant iau yr ysgol yn cael trafodaeth o leiaf ar y broblem yma, oherwydd y mae'n rhwyddach i annog plant ieuengach i beidio ag arbrofi; na cheisio yn ddiweddarach yn eu hoes eu hatal pan maent ynghlwm wrth doddyddion a chyffuriau.

**Enid Price, 6(1)**

Roeddwn yn falch iawn bod rhywbeth yn cael ei wneud yn yr ysgol ar gyffuriau drwy ddangos ffilmiau, ond i ddweud y gwir os fuaswn i ar gyffuriau ni fuasai'r ffilm wedi fy nychryn, gan nad oedd yn dangos digon o'r hyn yr oedd yn ei wneud i'r corff, a sut yr oedd yn difetha bywyd.

**Sioned Roberts, 6(1)**

—

*Roedd y ffilmiau yn dangos y gwirionedd am gyffuriau a chamddefnyddio toddyddion. Credaf i lawer gael eu dychryn gan y ffilmiau, ac rwyf yn gobeithio gweld rhywbeth yn cael ei wneud ynglŷn â'r broblem sy'n cynyddu ymysg ieuenctid ein hardal.*

**Helen Mair Jones, 6(1)**

—

**Roeddwn yn falch iawn o weld ffilmiau o'r math yma yn cael eu dangos yn yr ysgol, oherwydd y mae anwybodaeth ynglŷn â chyffuriau ymysg yr ifanc yn gyffredin yn ein cymdeithas heddiw.**

**Janet Hughes, 6(1)**

—

Rwyf yn cytuno â dangos y ffilm yn yr ysgol. Ond rwyf yn meddwl y dylai gael ei dangos i weddill y disgyblion, yn hytrach na'r pumed a'r chweched flwyddyn yn unig.

**Richard Sharpe, 6(1)**

*Mae'n hen amser i'r broblem gael ei denu i'r wyneb, gan fod y broblem o ddefnyddio cyffuriau yn cynyddu ymysg y bobl ifanc yn ein hardal. Ond nad oedd y fideo a ddangoswyd yn yr ysgol yn ddigon dychrynllyd i atal y bobl ifanc rhag defnyddio mwy o gyffuriau.*

**Jean Roberts, 6(1)**

—

Roedd rhannau o'r ffilmiau yn ddychrynllyd iawn. Ond, a oes rhywun am gymryd sylw, ynteu eu taflu i'r ochr ac anghofio popeth amdanynt? Buasai'n well dangos y ffilm i blant ieuengach hefyd, a dychryn ychydig arnynt. Maent hwythau yr un mor debygol o gael eu dylanwadu.

**Yvonne Jones, 6(1)**

—

**Nid oedd y ffilm yn ddigon dychrynllyd. Dylai gwell esiampl gael ei roi i ddisgyblion ac athrawon yr ysgol. Mae pethau llawer gwaeth yn digwydd i'r defnyddiwr pan yn cymryd cyffuriau. Gobeithio nad hyn fydd diwedd yr ymgyrch yn erbyn cyffuriau.**


**Euryn Roberts, 5A(2)**

—

Edrychais ymlaen i gael gweld y ffilm, a beth oedd effaith cyffuriau ar bobl. Ar ôl gweld y bobl yma yn defnyddio cyffuriau, a'i effaith arnynt, rwy'n synnu sut y gallent wneud y fath beth.

**Stuart Williams, 5A(1)**

# BEICWYR O FRI



**Pwy sy'n dweud fod Mistar Urdd ar ei wely angau? Roedd yn fyw ac yn iach fythefnos yn ôl yng nghyffiniau Llanrug beth bynnag.**


**Dau ddwsin o blant a deg o oedolion heini yn chwythu ac yn chwysu ar gefn beiciau – a'r cyfan oherwydd Mistar Urdd. Roedd beiciau o bob llun a lliw – beiciau rasio, B.M.X.'sus ac ambell i grair fyddai'n gweddu'n well i un o orielau Sain Ffagan!**

Beth am y beicwyr? Roedd rhai a'u trwynau ar y bar i'r Ras Laeth. Eraill, wrth reswm, yn llawer mwy hamddenol ac fe welwyd ambell un yn aros am sgwrs 'bôn clawdd'! Fe lwyddodd un i gwblhau'r holl daith heb gymorth yr un beic! Un arall yn gorfod gorffen y daith ar droed – "technical hitch". Gyda llaw, diolch i'r merched am y lluniaeth yn ystod y "pit stop".

Trefnwyd y daith noddedig gan Mrs Margaret V. Parry fel rhan o ymgyrch casglu arian i gronfa'r Urdd. Profodd yn fenter lwyddiannus dros ben, nid yn unig yn ariannol ond fel modd o greu gweithgaredd cymdeithasol i drigolion y pentref. Amcangyfrifir bod oddeutu £300 wedi ei gyfrannu gan y noddwyr. Os hoffai unrhyw un arall gyfrannu at yr Urdd byddai'r trefnydd yn ddiolchgar iawn.

Diolch i bawb a gefnogodd y fenter.

**(Gofynnir i'r beicwyr ddychwelyd eu ffurflenni noddi a'r arian i Mrs Margaret V. Parry erbyn DYDD SADWRN, CHWEFROR 8fed).**



**RHIFYN NESAF**

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg dydd Iau, Chwefror 28. Deunydd 'Eco'r Ifanc' i law erbyn **dydd Mawrth 18fed** i Edward Elias, Gwêl y Wawr, Llanrug.

# CYSTADLU YN EISTEDDFOD YR URDD

**CYNHELIR Eisteddfod Cylch Urdd Gobaith Cymru yn Ysgol Brynrefail Llanrug ddydd Sadwrn, Chwefror 22. Mae croeso i BAWB sy'n dymuno i gystadlu ynddi. Gellir ymaelodi â'r Urdd gyda'r adran agosaf at eich cartref neu drwy anfon y tâl aelodaeth (£1) gydag enw, dyddiad geni a chyfeiriad i Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth.**

**Dylid anfon ffurflenni cystadlu i Mr Alun Roberts, Pennaeth Ysgol Gynradd Y Gelli, Caernarfon neu i Mr Dafydd Idriswyn Roberts, Pennaeth Ysgol Gynradd Cwm-y-glo, cyn dydd Gwener, Chwefror 7, gyda rhif cystadleuaeth a rhif aelodaeth.**


**IEUAN WILLIAMS**
Glanffrwd
**DEINIOLEN**
**Llanberis 870484**
* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



**W.H. JONES**
TRYDANWR
**Green Bank**
**Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
**FFÔN: LLANBERIS 871470**
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati


# Y STREIC

## gan Angharad Price

**Dyddiadur merch a'i thad yn streicio yn ystod streic y glowyr.**

**Mawrth 1984:**

Wrth edrych yn ôl dros yr ychydig wythnosau ers i 'nhad gerdded i mewn i'r tŷ yn wên o glust i glust ar ôl i bawb bleidleisio'n unfrydol mewn cyfarfod i fynd ar streic, rwy'n sylweddoli faint mae ein ffordd o fyw wedi newid. Bellach, cefais fy ngwers biano olaf, a dirwyn i ben wnaeth ein hymweliadau â siopau dillad y dref bob pnawn Sadwrn.

Mae 'nhad, a Siôn, fy mrawd hynaf yn ffyddiog mai buddugoliaeth fydd diwedd y gân, gyda phawb, heblaw glowyr Nottingham wedi rhoi'r gorau i weithio.

Mi fûm yn brysur drwy fin nos neithiwr yn tacluso ychydig ar fy hen ddillad gan roi rhyw bwyth yma ac acw yn y trowsusau er mwyn eu haddasu ar gyfer Tudur, fy mrawd iau. Fe'm siarswyd yn daer gan mam i fod yn ofalus o bopeth, rhag ofn y daw'n handi rywbryd. Dywedwyd ffarwel yn barod wrth y teledu lliw.

**Gorffennaf 1984:**

Dwi wedi blino'n llwyr! Ers dechrau'r gwyliau ychydig ddyddiau'n ôl, rwyf wedi bod yn slafio fel morwyn fach yn y tŷ. Mae mam wedi gorfod darganfod swydd yn un o archfarchnadoedd y dref, ac mae hithau'n gweithio ddydd a nos mewn ymdrech i gael dau ben llinyn ynghyd.

Rwy'n edrych ymlaen at yfory gan ei bod yn ddydd Sul – mae dad wedi addo cyw iâr rhost i ginio, am y tro cyntaf ers tua tair wythnos.

Mi fu yna helynt yma rhyw ychydig ddyddiau'n ôl. Roedd Siôn wedi clywed sibrydion fod pwyllgor wedi ei drefnu y noson o'r blaen, yn gyfrinachol i'r rheiny ddymunai fynd yn ôl i weithio. Bu Siôn a'i ffrindiau'n taflu cerrig a darnau o goed at geir trefnwyr y cyfarfod. Yn anffodus fe'u gwelwyd gan blismon, ac er iddo roi galwad acw, methodd â phrofi euogrwydd Siôn yn y weithred.

O! Dyna ni eto! Tudur a Siôn yn ffraeo eto. Mae'r ddau wedi bod yng ngyddfau ei gilydd ers cyn bythefnos rŵan. Does ond gobeithio na ddeil hyn yn hir.

**Medi 1984:**

Mae gennyf ofn fod rhaid rhoi coel ar sibrydion ffrindiau Siôn. Yn ôl beth a glywaf, bu gwrthdaro ffyrnig rhwng yr heddlu a'r glowyr ar un llinell biced ychydig o filltiroedd i ffwrdd. Arestiwyd cryn ugain o streicwyr – mae Siôn yn dechrau mynd yn anniddig, a thymer fy nhad yn poethi.

Eisoes, rwyf wedi gweld rhwyg anferth yn y pentre. Y cynffonwyr, neu'r 'sgab' fel y dywed Tudur, yn cloi eu hunain yn eu tai, a'u plant heb gychwyn yn ôl i'r ysgol hyd yn hyn.

Mae mam wedi mynd i edrych yn llwyd a gwelw iawn yn ddiweddar, ac er nad yw'n cwyno'r un gair, rwy'n poeni amdani. Bydd raid i mi gael gair â nhad, mae'n amlwg nad yw'r holl fwyd tun (ond diolch amdano) yn gwneud llawer o les iddi, a hithau'n gweithio mor galed.

**Tachwedd 1984:**

Mae'r sefyllfa'n druenus ar hyn o bryd gyda degau o ddynion yn troi'n fradwyr. Mae dad yn isel iawn ei ysbryd, ac yn gweiddi am y peth lleiaf un, ac rwy'n siŵr ei fod yn rhoi straen ar iechyd fregus fy mam. Ond, chwarae teg i 'nhad, mae o wedi bod yn codi'n blygeiniol bob dydd at y llinellau i ymladd a phrotestio dros ein hachos.

Bu Tudur, ac Alan drws nesaf, yn brysur yn rhoi tân gwyllt yng ngerddi'r sgabs. Er iddo gael tamaid o geg gan fy rhieni, ni ddeuai'r gerydd o'r galon.

Mae'r tywydd yn dechrau oeri a'r gaeaf ar ein gwarthaf. Fe'n rhybuddiwyd i beidio â disgwyl dim yn anrhegion Nadolig – ac er yn siomedig, roedd pawb yn teimlo fod rhaid aberthu rhai pethau rŵan, er mwyn sicrhau dyfodol diogel i ni a'n plant.

**Ionawr 1985:**

Erbyn hyn, mae'r Dolig wedi'n gadael ac ar ôl yr hoe, mae pawb wedi eu llenwi â gwaed newydd. Ni fu'r Nadolig cynddrwg ag y disgwyliwn. Rhaid brolio haelioni ein perthnasau, a chyfranwyr ar hyd a lled Cymru, a lwyddodd i wneud ein Nadolig fymryn yn fwy cyffyrddus. Mae'r haenen denau o eira sy'n gorchuddio pobman wedi ein gorfodi i wisgo pob rhacsyn o ddillad sydd gennym, a rhaid oedd dweud hwyl fawr hiraethus wrth y tân coed yn y gegin ffrynt. Mae 'nhad, erbyn hyn, yn gwybod nad oes gobaith ennill y frwydr, ond, fel y dywedodd lawer tro dros y flwyddyn ddiwethaf – does dim troi'n ôl bellach.

**Chwefror 1985:**

Dyma'r diwrnod mwyaf bythgofiadwy yn fy hanes. Arweiniodd y band pres yr holl lowyr a barhaodd yn driw i'r streic – arwyr y gymdeithas – yn ôl i'w gwaith, gyda mwy o urddas nag a welais i erioed. Daeth lwmp mawr i'm gwddf wrth wylio diwedd y frwydr a gollwyd.

Collwyd? Cawn weld.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**


Mae mwy o ddewis nag erioed gan
**JOHN A ROBERTA GRIFFITH**
**Y STORFA**
**SGWÂR LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 2790**
Bwydydd, Llysiau, Diodydd, Glan Sirdar, Patrymau, Gweill Aero
ARCHEBWCH EICH TEGANAU AT Y NADOLIG, YN CYNNWYS BEICIAU BMX
**Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.**
**Agored tan 8.00 p.m. nos Wener a 9.30 - 12.30 fore Sul**
Archebwch dros y ffôn – fe'i danfonwn at eich drws

# LLANBERIS

**Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)**

CYDYMDEIMLO: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu'r diweddar John Sam Thomas, Bryn Aethwy, Stryd Warden a fu farw yn frawychus o sydyn ar Ragfyr 20 yn 62 mlwydd oed. Roedd yn gymwynaswr mawr a mawr fydd ei golled yn y pentref ac yn arbennig yng Nghapel Coch.

Anfonwn ein dymuniadau am wellhad buan i'r rhai o'r pentrefwyr sy mewn ysbytai a dymunwn y gorau i'r rhai sy wedi dychwelyd gartref gan obeithio y byddant yn parhau i wella.

DIOLCH: Dymuna Mrs Dwynwen Roberts, Coed ddiolch i'w ffrindiau i gyd am eu caredigrwydd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dychwelyd gartref.

Dymuna Glenda ac Alan Williams, Idan House ddiolch yn fawr iawn am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniont ar achlysur eu priodas.

Dymuna Maxine ac Alwyn Lloyd Roberts, 17 Tŷ Du Road, ddiolch o galon am yr anrhegion, y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniont ar achlysur eu priodas.

Dymuna Mrs Grace Jones, 4 Padarn Road ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau a chymdogion caredig am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna Rhian Owen, 15 Stryd Siarlot, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 21ain oed.

Dymuna Karen Williams, KMP, ddiolch i'w ffrindiau a'i pherthnasau am y caredigrwydd a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur genedigaeth ei mab bach, Jonathan.

Dymuna Rosemary a Jim Williams, 1 Llainwen Uchaf ddiolch i bawb am y caredigrwydd a'r dymuniadau da a dderbyniont ar achlysur genedigaeth eu mab bach, Steven, ar ddydd Nadolig.

LLONGYFARCHIADAU: i Jim a Rosemary ar enedigaeth Steven.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yn y Ganolfan ar Ragfyr 9, dan arweiniad Mrs Hannah Jones.

Aeth rhai o aelodau i ganu carolau i gapel Bryn Menai, y Felinheli ar Ragfyr 9.

Dymunwyd gwellhad buan iawn i Mrs Dwynwen Roberts a oedd yn yr ysbyty. Diolchwyd i Mrs Glenys Jones a Mrs Betty Jones am roddi'r dorch ar y Gofgolofn ar Sul y Cofio. Darllenwyd yr Adroddiad Blynyddol gan yr ysgrifenyddes ac adroddiad o'r cyfrifon gan y trysoryddes.

## Mrs. M. Parry Caewedros

Blin iawn gennym gofnodi marwolaeth Mrs. Megan Parry, gynt o Cross Castle, Caewedros, ym Mryntirion, Tregaron, ar ddydd Sul, Tachwedd 17, 1985, yn 75 mlwydd oed. Yn fuan iawn ar ôl marwolaeth ei phriod annwyl, y Parchedig J Alwyn Parry, torrwyd hithau i lawr gan afiechyd. Ond er hynny wynebodd y cyfan yn ffyddiog ac yn ddewr. Gellir dweud amdani hithau hefyd, "Mi a ymdrechais ymdrech deg,... mi a gedwais y ffydd." Bu yn gymar a chymorth gwerthfawr i'w phriod tra yn gweinidogaethu yng ngofalaethau Four Crosses a Llanberis, Gogledd Cymru. Cyflawnodd wasanaeth diflino gyda'r chwiorydd yn Henaduriaeth Arfon. Yr oedd yn gymeriad cadarn a phendant, ac nid oedd y gair segurdod yn ei geirfa. Dewiswyd hi yn flaenores yn Eglwys y Neuadd, a mawr oedd ei gwasanaeth a'i chonsyrn am yr Achos yno. Bu am gyfnod yng nghartref Min-y-Mor Aberaeron, ac ymaelododd yr Eglwys y Tabernacl. Edrychai ymlaen yn fawr at oedfa bore Sul, a mawr oedd ei gwerthfawrogiad o gyfeillion a'i cyrchai i'r oedfa bore Sul, ac a ymwelai â hi, a'r gofal a gafodd.

Bu yr arwyl ddydd Mercher Tachwedd 20. Rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent Eglwys y Neuadd. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Dilwyn O. Jones, ei gweinidog; Griffith G. Jones; George A. Howells; a D. Terry Thomas.

Yr archgludwyr oedd y Mri David M. Jones, W. A. Evans, Ceri Davies a J. E. Evans.

**PARRY**. Dymuna'r perthnasau ddiolch i'r meddygon, a staff cartref Minymor a Bryntirion, am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag at Mrs. Megan Parry, ac yn arbennig i'r cyfeillion hynny a fu mor ffyddlon iddi yn ystod ei gwaeledd hir. 12

*Derbyniwyd yr uchod drwy law'r Parch Terry Thomas, Aberteifi.*

# SNWCER BILIARDS PŴL



*Enillwyr y cystadlaethau cyntaf i'w cynnal ar fyrddau newydd y Ganolfan yn Llanberis.*

Croesawyd Mrs Vera Hughes, VCO a'r ddwy tellers i arolygu'r gwaith o ethol swyddogion a'r pwyllgor ar gyfer 1985-86. Yn ystod pleidleisio cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Vera Hughes am Goleg Denman.

Dyma ganlyniadau'r etholiad: Llywydd, Mrs Hannah Jones, Is-lywydd, Mrs Betty Humphries, Ysgrifenyddes, Mrs Helen Morris, Trysoryddes, Mrs Glenys Jones, Pwyllgor: Y swyddogion uchod a Mrs A.B. Jones, Mrs Dwynwen Roberts, Mrs Dilys Phillips, Mrs Mair Jones, Mrs Katie Griffith, Mrs Jean Elis, Mrs Rona Thomas a Mrs Betty Jones. Y gwestwragedd oedd Mrs Glenys Jones, Mrs Betty Jones a Mrs Mair Jones. Rhannwyd mins peis ganddynt ac fe gawsant eu gwerthfawrogi gan yr aelodau. Diolchwyd i Mrs Vera Hughes a'r tellers a hefyd i'r gwestwragedd gan Mrs Betty Humphries a Mrs Jean Elis. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Jones.

Hefyd ym mis Rhagfyr cawsom ein Cinio Nadolig yng Ngwesty Padarn Lake ac yr oedd gwledd ardderchog wedi ei darparu ar ein cyfer. Roedd yr adloniant dan ofal Mrs Katie Griffith a Mrs Glenys Jones. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn ardderchog.

MARWOLAETH: Bu farw Jennie Maud Jones, 81 Maes Padarn, gweddw'r diweddar R.H. Jones (Bob Barbar) yn Ysbyty Gwynedd Bangor ar Ionawr 22. Roedd yn 79 mlwydd oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Coch MC, ddydd Sadwrn, Ionawr 25, ac yna ym mynwent Nant Peris.

Ein cydymdeimlad â'r teulu oll yn y brofedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU:

I Alwen a Gareth Jones, Angorfa, Coed y Glyn ar enedigaeth mab bychan, Iwan, ar Ragfyr 27.

I Iona Roberts, 83 Maes Padarn ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ionawr 10.

I Delyth Roberts, 50 Maes Padarn ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ionawr 11.

I Nia, unig ferch Mr a Mrs Cledwyn Jones, Minffordd, Ffordd Tŷ Du ar ei dyweddïad â John, mab hynaf Mr a Mrs Arthur Williams, Fferm Cefn Isaf, Bethel ar Ionawr 20.

**YN EISIAU**

**Llyfr Emynau a Thonau** (Methodistiaid Calfinaidd) Hen-nodiant. **Gareth Jones, 27 Dôl Elidir, Llanberis (Ffôn: 870903).**

**YN EISIAU GOHEBYDD NEWYDDION LLANBERIS**

# NANT PERIS

**Gohebydd: Mrs J.E. Ellis, 8 Glanrafon (870733)**

CAROLAU: Cynhaliwyd y Cyfarfod Carolau arferol yn Rehoboth ar y Sul cyn y Nadolig. Cymerwyd rhan gan y plant a'r oedolion. Roedd cyfraniad y plant dan ofal Mrs J.M. Williams, Pennant.

GŴYLNOS: Mae'r hen arferiad o gynnal Gŵylnos y Nadolig yn dal ei dir. Roedd Eglwys Peris Sant yn orlawn. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parchedig Alun Hawkins gyda Mr Dereck Jones yn ei gynorthwyo.

**GWYNETH ROBERTS**
**84 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870491**
PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION





Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.
**BECWS ERYRI**
**Stryd Fawr, Llanberis 870491**

**CARPEDI GLÂN!**
Mynnwch driniaeth
**STIMVAK**
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
**TEGID PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 291**
**Hefyd ail-osod carpedi**

AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU
neu unrhyw fath o gynnyrch coed
ffoniwch
**BRYN**
**LLANBERIS 870793**
**B & K WILLIAMS**
**TANRALLT**
**CWM-Y-GLO**

# BETHEL

**Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)**

MERCHED Y WAWR: Nos Sul Rhagfyr 22 yng Nghapel Cysegr, cynhaliwyd noson o Naw Llith a Charol, gyda'r casgliad o £52.20 yn mynd i apêl y sganner yn Ysbyty Gwynedd. Agorwyd y noson gan y llywydd, Mrs Mair Price. Darllenwyd y llithoedd gan y Parchn W.R. Williams ac R.W. Roberts. Rhoddwyd eitemau gan gôr yr Urdd a Chôr Bethel a'r Cylch – y ddau gôr dan arweiniad Mrs Glenys Griffiths, Llwyn Eithin, a'r cyfeilyddion ar yr organ oedd Mrs Beti Owen a Mrs Rita Williams, Tan-y-cae. Diolchwyd i bawb gymerodd ran, gan Mrs Mair Price, Tan-y-ffordd.

Rhagfyr 11 aeth y gangen i Blas Menai i gael eu cinio Nadolig, ar ôl cael bwyd ardderchog, cafwyd cwis ysgafn wedi ei threfnu gan y llywydd, Mrs Mair Price a Mrs Glenys Griffiths, a chanwyd ychydig garolau. Enillwyd y raffl gan Mrs M. Williams, Erw Bian.

Nos Fercher, Ionawr 8 cafwyd noson ddifyr yng nghwmni'r Dr Helen Roberts. Croesawyd hi'n gynnes iawn gan y llywydd, Mrs Mair Price, Tan-y-ffordd. Rhoddodd y Dr Roberts sgwrs a cwis ar sut i fwyta'n iach, gyda'r rhan fwyaf ohonom yn bwyta bwydydd anghywir, gormod o golestrol a rhy 'chydig o ymarfer. Diolchwyd iddi gan Mrs Siân Hughes, Cae Rhos. Enillwyd y raffl gan Mrs Gwyneth Jones, Y Fachell. Y gwestwragedd oedd Mrs Mair Jones, Glan Gors a Mrs Ceinwen Williams, Cefn Gwyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Chwefror 12 – y wraig wadd fydd Miss Shopie Parry Jones o Amgueddfa Felin Faesog, Clynnog. Bydd hi'n sgwrsio ar Hen Bethau. Os oes gan rhywun rhywbeth henafol, dowch â fo gyda chwi. Bydd cangen Deiniolen a'r Bontnewydd yn ymuno â ni.

PÊL-DROEDWYR Y DYFODOL: Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill tystysgrif a medal o dan nawdd Cymdeithas Pêl-droed 'Super Skills'. Gwobrwywyd hwy yn y Ganolfan Hamdden gan Vivian Williams o Glwb Dinas Bangor, – Raphael Ginsberg, Ian Jones, Eilir Birkett, Gavin Jones, Arfon Roberts ac Aled Griffiths. Daliwch ati, hogia!

PIANO: Bu nifer o blant y pentref yn llwyddiannus yn eu harholiadau piano'n ddiweddar – Wena Williams, Ceris, Sian Emlyn Hughes, Bethlyn, Menna Dauncey Williams, Elan, a Non Llewelyn Jones, Stâd Eryri. Llongyfarchiadau cynnes iddynt i gyd.

PWYLLGOR Y NEUADD: Nos Lun, Ionawr 21 cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y Neuadd. Ailetholwyd Mr Goronwy Jones, Glan Gors yn Llywydd a Mr Seiriol Owen, Tan y Cae yn Drysorydd. Dewiswyd Myfanwy Jones, Glan Gors yn Ysgrifennydd y Pwyllgor a Mrs Olwen Williams, Ceris yn Ysgrifennydd Llogi'r Neuadd, felly o hyn ymlaen dylid gofyn iddi hi ynglŷn â llogi'r neuadd a chanddi hi hefyd fydd y goriad. Diolchwyd i Mrs Mair Read am ei gwaith caled dros y ddwy flynedd diwethaf.

CLWB Y MAMAU: Enillwyr y Raffl Nadolig a dynnwyd ar Ragfyr 11 oedd: **Twrci:** Mrs Margaret Williams, Seion, **Wisgi:** Carys Owen, Berwyn, Bethel, **Bocs o ffrwythau:** J.H. Roberts, 4 Maes Isalaw, Bangor, **Cacen Nadolig:** Treflyn Stores, Bethel, **Sieri:** Eurgain, Plas Menai, **Bisgedi:** Ann Jones, Talmignedd, Nantlle, **Gwin:** D. Roberts, Station House, Dolwyddelan, **Tatws:** Gareth Birkett, 3 Stâd Eryri, Bethel, **Potel o Port:** Rhian M. Roberts, 45 William Street, Caernarfon, **Dysgl Planhigion:** Cefin Wyn Roberts, Yr Efail, Bethel, **Glo:** Elizabeth Hughes, Bethlyn, Bethel.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Yr oedd elw'r raffl tuag at swper Nadolig henoed yr ardal.

YR YSGOL FEITHRIN: Cafwyd bore coffi llwyddiannus iawn, ddydd Iau, Rhagfyr 12, cymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Feithrin. Enillwyd y raffl, bocs o nwyddau, gan Mrs Pat Jones, Tan-y-buarth, ac enillwyd y ddol gan Euros Rees, 6 Y Rhos. Dymuna bwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Dydd Iau, Rhagfyr 19 cafodd plant yr Ysgol Feithrin eu cinio Nadolig a daeth S]ôn Corn i ymweld â hwy.

CLWB Y MAMAU: Eleni, yn hytrach na dosbarthu parseli i oedolion y pentref, penderfynwyd gwneud swper iddynt. Fe ddaeth nifer dda i Festri Cysegr nos Fercher, Rhagfyr 4 pryd y cafwyd swper bendigedig wedi ei ddarparu gan aelodau'r Clwb. Ar ôl swper cafwyd adloniant gan Mrs Glenys Griffith, Mrs Rita Williams a Mrs Ann Hopcyn Evans. Rhoddwyd y diolchiadau ar ran yr henoed gan y Parch W.R. Williams ac fe gyflwynwyd blodau a diolchiadau ar ran Clwb y Mamau i Glenys, Rita ac Ann gan Nan Owen, Berwyn.

MARWOLAETH: Yn dawel fore Sadwrn, Rhagfyr 28 bu farw Mr Thomas Williams, gynt o Gwelfor, Saron mewn cartref henoed, Dwynfa, y Bontnewydd, yn 84 mlwydd oed. Roedd yr angladd ddydd Iau, Ionawr 2 gyda gwasanaeth yn y Cysegr ac yna ym mynwent Llanddeiniolen. Gwasanaethwyd gan y Parch W.R. Williams, a'r Ymgymerwr oedd Mr Gwilym Roberts, y Felinheli.

Y cludwyr oedd y Mri Gwilym Williams, Tommy Jones, John Jones a Peter Jones, ac fe roddwyd blodau gan Tom, Nan a Carys, Berwyn; John a Ruth, Deiniolen; a Mr a Mrs Holmes, Staff a Phreswylwyr Dwynfa, Bontnewydd. Derbyniwyd y swm o £36.54 tuag at Eglwys y Cysegr er cof.

Fel 'Tomi Cefn' yr adnabuwyd Mr Williams ym Methel, a chyn iddo golli ei olwg, mawr fu ei gyfraniad i'r pentref fel diddanwr, yn enwedig gydag adrodd a'r organ-geg, ac fe fu'n gefnogol iawn i eisteddfod y pentref am flynyddoedd.

CYDYMDEIMLO: Rhagfyr 20 bu farw Mrs Mary Williams, Gilfach, Bethel. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

CLWB CANT PLAID CYMRU: Rhagfyr – 1. John Roberts, Bedw Gwynion. 2. John Rowlands, Llys Forgan. Ionawr – 1. Clifford Williams, Awelon, 2. Raymond Jones, 2 Bryn Fedwen.

## O BANTRI BETH

**(i) Saig Domato ar Dost**

2 owns margarîn
2 nionyn wedi'u malu
4 tomato
4 owns o gaws wedi'i ratio
2 wy wedi'u curo
(ii) pupur
pinsiad o saets
tipyn o halen garlleg
llond llwy fwrdd o ddŵr

Mewn sospan ffriwch y nionod yn y margarîn, ychwanegwch y tomatos a'u ffrio am dipyn. Yna rhowch cynhwysion (ii) a'i flasu nes y bydd at eich dant. Ychwanegwch y caws a'i godi'n araf i fud-ferwi.

Ychwanegwch yr wyau gan ddal i goginio'n araf – gofalwch na wnant geulo.

Rhowch y cyfan ar dost fel swper blasus sydyn. Mae'n bosibl ei fwyta'n oer rhwng brechdanau.

## CYFRES GREFYDDOL NEWYDD AR HTV

Mae HTV Cymru yn paratoi cyfres grefyddol newydd, 'Wales on Sunday', i'w theledu yn ystod yr wythnosau yn arwain i fyny at Y Pasg.

Rhaglenni cylchgrawn o hanner awr ydynt ac fe fyddant yn bwrw golwg ar bob agwedd o fywyd crefyddol Cymru. Bydd y gyntaf mewn cyfres o saith i'w gweld am 1 o'r gloch ar Chwefror 9. Bydd y rhaglenni yn cynnwys cyfweliadau gyda phobl yn y newyddion, a'r sawl sydd â rhywbeth i'w ddweud o Gymru a thu allan.

Rhoddir cyfle i unrhyw un – beth bynnag fydd ei enwad neu'i gredo – i hysbysu digwyddiadau yn ei eglwys, ei gapel neu'i gymdeithas – y problemau sydd i'w datrys, y llwyddiant a'r digwyddiadau.


Un ffordd o roi gwybodaeth am ddigwyddiadau fydd drwy hysbysfwrdd 'Wales on Sunday' – dyddiadur wythnosol y gellir ei ddefnyddio i hysbysu unrhyw beth – o rali fawr i ffair sborion, o gyngerdd i grŵp astudio.


# IESU
## Ddoe a Heddiw



Cyfres newydd ar S4C
yn dechrau nos Fawrth,
4 Chwefror am 10.00.
Ail-ddarllediad ar b'nawn
Sul am 4.30.

I gyd-fynd â'r gyfres:



Iesu Ddoe a Heddiw -
Y Llyfr (£4.95)
Llyfr Gwaith (£9.50 pecyn o 10)

Ar gael o'ch siopau lleol neu
drwy lenwi y tocyn isod

TREFTADAETH
GRISTNOGOL
CYMRU

Cyflwynwyr y gyfres -
Meirion Lloyd Davies a Gaenor Howells



nifer

Iesu Ddoe a Heddiw - Y Llyfr £4.95 ☐
Iesu Ddoe a Heddiw - Pecyn gwaith £9.50 ☐
Sieciau yn daladwy i Strata
(Archebion llai na £5 rhaid cynnwys £1 o dâl dosbarthu)

Enw ..............................


Cyfeiriad ..............................

..............................

Dychwelir y tocyn i:
Treftadaeth Gristnogol Cymru, PO Bocs 13, Aberystwyth, Dyfed



BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL
*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)**

CLWB GWYRFAI: Fel arfer ein cyfarfod ddiwedd y flwyddyn oedd un â phlant ysgol y Waun mewn Gŵyl Garolau ar Ragfyr 12 yn y Ganolfan. Llywyddwyd gan y Parch Barry Thomas. Cafwyd darlleniadau o'r ysgrythur gan y plant a hefyd cyd-ganu Carolau adnabyddus.

Diolchodd Mrs Idris Jones i Mr Leslie Jones, y prifathro, ac i Mrs Eames oedd yn cyfeilio a hefyd oedd wedi hyfforddi'r plant, am eu cydweithrediad bob amser gyda Chlwb yr Henoed.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 1986 ar Ionawr 7 â'r Parch Barry Thomas yn llywyddu. Yn ystod yr wythnos roedd wedi ymweld â thri aelod o'r Clwb yn Ysbyty Gwynedd – Mrs M.A. Owen, Mrs Clayton a Mr Evan Hughes. Anfonwyd cofion a dymuniadau da am wellhad buan iddynt oddi wrth yr aelodau.

Mrs Jones, Eilian Terrace enillodd y raffl – rhodd gan Mrs Pritchard, 6 Trefeilian. Ar fyr rybudd rhoddodd y Rheithor sgwrs gyda lluniau o lawer o hen eglwysi'r wlad gan egluro fel roedd pensaerniaeth yr adeiladu yn cofnodi eu cyfnod.

Roedd Huw yn helpu ei dad gyda'r projector. Diochodd y Dr Miles i'r ddau am lenwi'r bwlch ar bnawn hynod o stormus.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Iau, Ionawr 2, aeth aelodau Sefydliad y Merched i Westy Gwynedd, Llanberis, i ddathlu'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Cafwyd pryd o fwyd ardderchog a noson gartrefol yn sgwrsio o flaen y tân. Dymunodd y Llywydd, Mrs Pat Southworth, ben-blwydd hapus i Mrs Southworth, a oedd yn 86 oed y diwrnod hwnnw. Llongyfarchwyd Mrs Peggy Jones ar fod yn nain eto – ganwyd mab i'w merch, Pat. Cydymdeimlodd y Llywydd â chyn-Drysorydd Cangen Waunfawr, Mrs Buddug Rowlands, sydd wedi bod yn yr ysbyty, ac arwyddwyd cerdyn gan yr holl aelodau i'w anfon i Mrs Rowlands gyda dymuniadau da'r gangen.

Dosbarthodd Mrs K. Wynn Jones, yr Ysgrifennydd, raglenni testunau ar gyfer Sioe Gwaith Llaw Sefydliad y Merched sydd i'w chynnal yn Feed My Lambs, Caernarfon ar Fai 15 am 7 o'r gloch.

Diolchwyd i Mrs K. Wynn Jones a Mrs Catherine Jones (Trysorydd) am drefnu'r noson, a diolchodd Mrs M. Evans i'r pwyllgor am eu rhoddion o wobrau raffl ar gyfer pawb oedd yn bresennol.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 6, yn Festri Capel Croesywaun, pryd y disgwylir y Parch a Mrs Ifor Rowlands, Caernarfon i roi sgwrs ar eu hymweliad ag Israel.

Bydd croeso mawr i aelodau newydd ymuno.

DIOLCH: Dymuna Gwynedd a Pat, Bron Llywelyn ddiolch yn gynnes i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Iwan, eu mab, brawd bach i Derfel.

YR URDD: Yn y cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn dechreuwyd ar y gwaith o baratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Bydd y plant yn brysur iawn o hyn tan Chwefror 22, pryd y cynhelir yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Brynrefail. Os hoffai rai o'r plant gystadlu yn unigol, mae'r manylion i'w cael gan Mrs Beryl Jones, Dôl y Coed.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr:
1. £40, Mrs Rhian Ellis, Glyn Awel; 2. £25, P.E. Marston, Blaen y Nant; 3. £10, Dr Huw Roberts, Y Syrgeri.

Yn ogystal fe dalwyd 4 gwobr ychwanegol o £10 i:
A.R. Jones, Cae Trefor; G. Coles, 6 Bro Waun; V.R. Davies, Castell Cidwm; Evan Davies, Tan y Graig, Ceunant.

DIOLCH: Dymuna Alun Williams, Bro Waun, ddiolch o galon i bawb a gymerodd ran yn y Cyngerdd nos Wener, Ionawr 17, i'r rhai a gyfrannodd tuag at y noson ac i'r ardal am eu cefnogaeth unwaith eto. Gwnaethpwyd elw o £140 yn cynnwys £20 a roddwyd gan yr athrawon a phlant yr ysgol.

LLONGYFARCHIADAU I:
– Kim Turner, Collfryn, ar ei phen-blwydd yn un ar hugain ar Ionawr 3.
– Nesta Llewelyn Griffith, Eirianallt yn un ar hugain ar Ionawr 21.
– Yvonne a Roger, Tref Eilian, ar enedigaeth mab bychan, ac i Mr a Huw Parry, Bro Waun, ar fod yn daid a nain.
– Mr a Mrs W.T. Owen, Noddfa, ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf – ganwyd merch fach i Gwenno eu merch.
– Elizabeth Jones, Noddfa gynt, am gael ei dewis i ddilyn cwrs Prifysgol Agored mewn gofal nyrsio.

DIOLCH: Dymuna Mrs Maureen Griffiths, Bryn Eilian, sydd wedi dychwelyd gartref yn ddiweddar ar ôl arhosiad yn yr ysbyty, ddiolch i'w ffrindiau oll yn y pentref am eu dymuniadau gorau a'u negeseuon caredig. Diolch yn arbennig i Mrs May Roberts, Bodafon, Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn, a Mrs Enid Williams, Heli, am eu caredigrwydd mawr a'u cymorth pan ei angen fwyaf.

DIOLCH: Dymuna Mrs M.A. Owen, 7 Tref Eilian, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Carys, Manon a Dylan, Bryn Golau, ddiolch yn fawr iawn i'w cymdogion, perthnasau a'u ffrindiau am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt tra roedd Manon yn yr ysbyty yn ddiweddar.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Rhagfyr: 1. Haydn Jones, Rhandir Mwyn; 2. Emrys Lloyd Hughes, Treflan Isa; 3. Dafydd Iwan, Pen y Berth.

ARHOLIADAU CERDD: Llongyfarchiadau i'r plant canlynol ar lwyddo yn eu harholiadau:
**Theori**: **Gradd 1**: Rhys Sion, Pant Teg; Rachel Davies, Nant y Mynydd; Gwyndaf Williams, Tros y Gors. **Gradd 3**: Karen Roberts, Sŵn y Gwynt. **Gradd 4**: Siân Llwyd, Dôl y Coed. **Piano**: **Gradd 1**: Ella Wyn Jones, Graianfryn (Anrhydedd). **Gradd 2**: Alaw Meleri, Rhandir Mwyn; Gareth Davies, Nant y Mynydd (Teilyngdod). **Gradd 3**: Telor Hedd Iwan (Teilyngdod). **Gradd 4**: Siân Llwyd, Dôl y Coed (Teilyngdod). **Gradd 5**: Karen Roberts, Sŵn y Gwynt. **Gradd 6**: Joanna Marston, Blaen y Nant; Iwan Ellis, Glyn Awel (Teilyngdod). **Clarinet**: **Gradd 6**: Gwyn Thomas, Treforfa (Anrhydedd).

CYDYMDEIMLWN: yn fawr â Mrs Angela Parry, Bryn Golau, ar golli mam, sef Mrs M. Williams, 10 Tref Eilian.

 Mr George Taylor, Baladeulyn, Dôl Erddi, ar golli chwaer, sef Mrs Oliver, Bryn Golau.

 Mr Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd, ar golli mam.

Ac â Mr Roy Jones, Cynefin, ar golli tad.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan iawn i Mr Jackie Parry, Llys Arfon, Mrs J. Clayton, 3 Bro Waun, a Mrs Eirwen Jones, Cynefin.

ADREF O'R YSBYTY: Gobeithiwn bod y rhai a fu'n cwyno neu'n derbyn triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn gwella ar ôl dychwelyd gartref, sef Mr Evan Hughes, Bro Waun, Manon Jones, Bryn Golau, Mr Roger Dafydd, Glanfa, Mrs Maureen Griffiths, Bryn Eilian, Mrs Buddug Rowlands, Tre Wen, Huw Gwilym, Llidiart Wen, a gafodd ddamwain ar iard yr ysgol, a Mrs M.A. Owen, 7 Tref Eilian a gafodd ddamwain yn ei chartref.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs Huw Griffiths, Y Llythyrdy ar ddathlu eu priodas arian Ionawr 28.

CYDYMDEIMLWN: â Mrs Catherine Bracegirdle, 21 Tref Eilian, a'i chwaer Jane, ar golli ei brawd, Bob yn Nottingham, ac â Mrs Valmai Williams, Garreg Fawr ac Emrys Owen, Bryn Môr yn eu profedigaeth hwythau o golli tad yn frawychus o sydyn, sef Mr Owen Owen, Y Glennydd.

# TAN-Y-COED

**Gohebydd: Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)**

LLONGYFARCHIADU: i Mr a Mrs Gwynfa Pritchard ar enedigaeth merch fach ar Ragfyr 26, 1985, chwaer fach i Sian ac Iwan, ac wyres arall i Mr a Mrs William Pritchard, Garnedd. Llongyfarchiadau i'r teulu oll, a phob bendith i'r dyfodol.

PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Ellis, 3 Tai Bryngwyn ar ddathlu ei phen-blwydd yn 87 oed yn ddiweddar. Ar hyn o bryd mae Mrs Ellis yn aros gyda'i mab a'i briod, Mr a Mrs Tom Ellis yn Nottingham.

CROESO ADRE: i Miss Nance Williams, Cartref, wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd; hefyd i'w nai, Mr Michael Williams, Cartref, ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd. Gwellhad buan i'r ddau.

# BETWS GARMON

YMRYSON CŴN DEFAID: Amser i baratoi at chwaraeon yr haf yw Ionawr i ni, ymrysonwyr y cŵn defaid.

Mae ymryson Betws Garmon yn hen sefydliad, y hi a'r Bala yw'r ddwy hynaf drwy Brydain. Mae'r Bala wedi dathlu ei chanmlwyddiant rhyw dair blynedd yn ôl.

Cofiaf am dair ymrysonfa yn cael eu cynnal ym mro Eco'r Wyddfa rai blynyddoedd yn ôl – Deiniolen, Nant Peris (sydd wedi ei hail-sefydlu'r llynedd) a Betws Garmon. Hefyd cynhaliwyd un yn y plwy nesa – Beddgelert.

Tybed a oes rhai o'r oedolion ar gael heddiw yn cofio'r pedair yn cael eu cynnal?


Cynhelir ymryson Betws Garmon eleni ar Awst 15 a 16.

**ENGLYN I'R CI DEFAID**
**Rhwydd gamwr hawdd ei gymell – i'r mynydd**
**A'r mannau anghysbell;**
**Hel a didol diadell**
**Yw camp hwn yn y cwm pell.**


**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR**

**AR AGOR**
**9-7pm**
9-5pm Sadwrn
**AR GAU**
**SUL, MERCHER.**

Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)



**GWLÂU SENGL O £39 I FYNY**
**GWLÂU DWBL O £75 I FYNY**
**DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800**
**LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'**
**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**



**M. ROWLANDS**
**MONUMENTAL MASONS**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 2898**
(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu: dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau: dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

**Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.**

# LLWYDNI

*(Stori ddychmygol o waith Mr I.B. Griffiths, C.B.E., yw'r canlynol. Sgrifennwyd y stori ddeugain mlynedd yn ôl. Gofynnais i Mr Griffiths am ganiatâd i'w rhoi yn 'Eco'r Wyddfa'. "A chroeso!" oedd ei ateb.*

**"Rhydodd yr hoelen, llaciodd y llechen, a threiglodd y glaw yn fradurus i furiau'r capel. Ymhen amser daeth allan yn y calch uwchben y pulpud. Am fis neu ddau ymddangosodd ar lun wyneb crwn fel Hympti Dympti, – yna lledodd yn hwyaden braf – magodd gynffon a thraed a throdd yn geiliog ar y pared.**

Meddai John Huws, un o ymddiriedolwyr y capel wrth eistedd yn ôl yn ei gadair i wrando barn ei frodyr mewn pwyllgor, "Mae Huw Wilias yn rhy hen o lawer i fynd i ddringo ysgolion at y llwydni. Mi wrthododd ddod acw i bapuro'r gegin orau wythnos yn ôl. Ond cofiwch efallai mai gwell fyddai rhoi cynnig iddo fo, rhag ofn i ni droi'r drol a bod yn edifar neu sathru ar gorn rhywun."

Gohiriwyd y mater am wythnos, ond wedi clywed nos Fawrth ei fod yn rhy hen i ddringo ysgolion aeth Huw Wilias i'r eglwys fore Sul i chwilio am gymun wyth a gobeithio y cawsai waith yno. Syrthiodd o ben y clochdy nos Iau a bu farw yn yr ysbyty.

Erbyn hyn yr oedd y ceiliog dychmygol ar y pared wedi magu un adain fawr, ac yn debyg iawn i'r ieir acw wedi i nain eu tocio un ochor rhag iddynt fynd i grafu'r tatws dros glawdd yr ardd.

Tomos Dafis, dyn hel insiwrans o Sir Fôn, oedd yn pregethu yn y bore, a 'doedd neb yn cael llawer o flas arno. Er bod crefydd yn rhyw fath o insiwrans rhag tân a lot o bethau eraill, 'doedd neb yn gweld fod yr Efengyl a Tomos Dafis yn rhyw gyfuniad hapus rywsut. A pheth arall 'roedd llun y ceiliog ar feddwl pawb.

"Gwell fyddai inni gadw busnes y cyfarfod yma yn gyfrinachol," meddai John Huws, pan gyfarfu'r ymddiriedolwyr eilwaith i drin "y ceiliog" ar y mur. 'Roedd hyn tua hanner awr wedi un ar ddeg. Un go hir yn dyfod at ei destun, ac un go gyndyn o'i adael oedd Tomos Dafis. Ond gresyn na buasai wedi dal ati gyda'r tri llanc am oriau yn chwaneg y bore hwnnw.

Erbyn hanner dydd, yr oedd dau o'r ymddiriedolwyr wedi gadael y cyfarfod – hanner brawd i wraig Huw Wilias oedd un, yn weddw ers dwy flynedd, ac yn dad i wyth o blant. 'Roedd pob un o'r wyth yn dweud adnod yn sêt fawr y capel Wesla, nos Sul, ac Owen Lewis eu tad yn un o'r seti bach yn gwneud ei orau i actio fel petai'n Wesla erioed. Bedyddiwr oedd gwraig Wmffra Richards, ac ni bu erioed yn hapus. Meddai, "Os na fedran nhw dy werthfawrogi di Wmffra, mae'n well o lawer inni fynd at y Bedyddwyr. Mi gawn ein parchu yno beth bynnag." Ac at y Bedyddwyr yr aeth y ddau. Dynes heb ddim plant oedd Mrs Richards.

Erbyn hyn yr oedd llun y ceiliog yn enwog – "aderyn y ddrycin," mewn gwirionedd, ac erbyn nos Lun magodd adain arall ac edrychai fel pe bai'n hofran uwchben y pulpud pan dynnai Mrs Ellis lwch oddi ar y Beibl a chodi papur bach rhif emynau Tomos Dafis oddi ar lawr y pulpud. "Tynnu llwch dydd Llun a fydd isio dim ond rhyw sglein pnawn Sadwrn wedyn" – dyna a fyddai Mrs Ellis yn ei ddweud bob amser.

Nos Fawrth ar ôl y Seiat galwodd Mr Williams y gweinidog, ar y swyddogion a'r ymddiriedolwyr i aros ar ôl. 'Roedd yno gryn ugain ohonynt yn y festri. Dechreuwyd trwy weddi ac yna aed at y busnes. Cydymdeimlwyd â gweddw Huw Wilias gan ryw led awgrymu mai cwymp oddi wrth ras hollol ddiangenrhaid oedd achos ei dranc disymwth.

Ffromodd Gwilym Edwards, Pen Talar, ac aeth allan gan ddywedyd nad wedi dyfod yno i wamalu ynghylch pethau difrifol yr oeddynt. Yr oedd o fewn tair wythnos i Glamai, ac aeth ei ddau was allan ar ei ôl.

Cododd John Gruffydd, y pen-blaenor, – hynafgwr duwiol ac meddai, "'Rown i yn y capel yma o flaen yr un ohonoch chwi. 'Roedd fy hen daid yn un o'r ymddiriedolwyr cyntaf yn yr hen gapel bach . . . fe fyddai'n chwith ganddo fo," . . . a thorrodd yr hen frawd annwyl i wylo'n hidl. Eisteddodd i lawr.

Cododd John Edwards i gynnig bod Roger Lloyd o'r dre yn dyfod i atgyweirio'r capel a bod y merched i wneud sosial i glirio'r gost. Fe wyddai John Edwards yn eithaf da mai cas beth f'ewyrth Lewis oedd sosial mewn capel, ond ni fu John Edwards erioed yn hynod am ei ddoethineb.

Aeth pawb adre, a gadawyd y ceiliog yn hofran uwchben y pulpud trwy'r nos. Er mai ôl glaw ar y calch oedd o, mi allech daeru ei fod yn fyw ac yn barod i 'hedeg.

Trannoeth bûm yn dadlau am oriau â f'ewyrth Lewis, ond doedd dim troi arno fo. "Os cân nhw sosial, 'y ngwas i, mi fydd i dy fodryb a minnau droi yn Fethodistiaid y Sul nesaf."

A Methodist yw fy modryb byth! Fe gollodd fy ewythr ers blynyddoedd bellach. Cyn noson y Sosial cyfarfu Pwyllgor y Merched bedair gwaith. Aeth tair ohonynt i'r eglwys, dwy at y Wesle, a phedair at y Methodistiaid.

Erbyn hyn 'roedd y ceiliog wedi gorledu ei adain nes troi yn gwmwl bygythiol ledled y mur.

Er i Mrs Williams, gwraig y gweinidog, wneud ei gorau, ac iddo yntau arwain yn fedrus neilltuol, nid oedd rhyw lawer o lewyrch ar y sosial ac ychydig iawn o elw a wnaed. 'Roedd yn annos o lawer nac arfer cael ymadael â'r gweddill bwyd ac aeth dau deulu i'r eglwys, oherwydd ffrae ynglŷn â dwy dorth frith.

Bore Sul pregethodd y gweinidog ar 'Gariad brawdol'. Y nos pregethodd ar 'Ffydd heb weithredoedd.' Deg ceiniog oedd y casgliad. Ynghorff yr wythnos magodd y cwmwl ddau gorn mawr, un glust dde fawr, a locsyn hir. Parodi goeglyd o fwch gafr yn hongian uwchben y pulpud wrth i Mrs Ellis dynnu llwch oddi ar y Beibl a'r Llyfr Emynau.

'Doedd dim sôn am i neb ddyfod i drwsio'r to. Y casgliad ar y Weinidogaeth oedd yn poeni'r chwe aelod a phen. Cyfarfu'r eglwys yng nghegin y gweinidog.

Ni chododd yr hen John Gruffydd annwyl y pen-blaenor byth o'i wely ar ôl y noson honno.

### CWESTIWN

Beth fuasech chi wedi'i roi yn deitl ar y stori uchod? Anfonwch eich awgrym.

---

### Y MÔR

Bydd yr hen gân yma o waith R.E. Roberts, Llanberis, gynt o'r Dorlan Goch, Clwt-y-bont yn mynd yr holl ffordd i Ganada.

**Anferthol faith ei wyneb**
**Yw y môr, yw y môr,**
**Rhyw ail i dragwyddoldeb**
**Yw y môr:**
**Mae yn ei faith ddyfnderoedd**
**Gyflawnder o oludoedd**
**Ac aur ers amryw oesoedd**
**Yn y môr, yn y môr,**
**Arianog Duw y lluoedd**
**Yw y môr.**

**Du erchyll fro marwolaeth**
**Yw y môr, yw y môr,**
**A mynwent fawr dynoliaeth**
**Yw y môr;**
**Er maint y celaneddau**
**Sy'n gorwedd dan ei donnau**
**Ni welir cof-golofnau**
**Yn y môr, yn y môr,**
**I nodi'r dyfrllyd feddau**
**Yn y môr.**

**Pa le mae Cantre'r Gwaelod?**
**Yn y môr, yn y môr,**
**A'i gwŷr yn pesgi'r pysgod**
**Yn y môr:**
**Ei heirdd balasau mawrion**
**Feddiennir gan bysg brithion**
**Heb rent nac un gofynion**
**Yn y môr, yn y môr**
**Ni thalant dreth y tlodion**
**Yn y môr.**

**Modrwyau geir gryn lawer**
**Yn y môr, yn y môr**
**A watches patent lawer**
**Yn y môr:**
**Peth od nad ai'r oriedydd**
**Gan faint yw grym ei awydd**
**I godi'r stoc ysblennydd**
**Sy'n y môr, sy'n y môr,**
**Yn gorwedd mor ddi-ddefnydd**
**Yn y môr.**

**Mae pysgod mawr aruthrol**
**Yn y môr, yn y môr,**
**Yn gwledda ar gnawd dynol**
**Yn y môr:**
**Mae tuedd yn eu rheibiad**
**I ddrysu'r Atgyfodiad**
**Trwy falu cyrff mor anfad**
**Yn y môr, yn y môr,**
**A'u cario i bob cyfeiriad**
**Yn y môr.**

**Mae llawer o farilau**
**Yn y môr, yn y môr,**
**O gwrw a gwirodau**
**Yn y môr:**
**'Chaiff temlwyr da ddim profi**
**O'r pysgod dirifedi**
**Sy'n nofio'r dyfroedd heli**
**Yn y môr, yn y môr:**
**Maent wedi yfed brandi**
**Yn y môr.**

**Pa le mae'r Brenin Pharo?**
**Yn y môr, yn y môr**
**A'i galon wedi mwydo**
**Yn y môr:**
**Ei feirch fu yn carlamu**
**Ar ôl anwyliaid Iesu**
**Mae'u harnis wedi rhydu**
**Yn y môr, yn y môr,**
**A'i fyddin gref yn pydru**
**Yn y môr.**

**(Awdur) ROWLAND E. ROBERTS**
**Bedwargoed**
**Llanberis**
**gynt o'r Dorlan Goch, Clwt-y-bont.**

Meilir Wyn, Llanberis anfonodd y gân at olygydd 'Y Brython'.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

---

**Y LLWYBR TROED**
**'Rwy'n hen a chloff, ond hoffwn – am unwaith**
**Gael myned, pe medrwn**
**I'm bro, a rhodio ar hwn:**
**Rhodio, lle gynt y rhedwn.**

**J.T. JONES**

Oes rhywun yn cofio pa bryd ac ymhle y cafodd J.T. Jones y wobr gyntaf am yr englyn uchod? Anfonwch i ddweud. Dyma fy nghyfeiriad: **Llys Awen, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4BA.**

## BREUDDWYD

**Ynghanol dyfnder nos,**
**A minnau'n ffaelu cysgu;**
**Goleuai'r sêr eu lampau gwyn,**
**A'r lleuad wen yn llosgi;**
**'Roedd pryder yn fy nghalon,**
**A hiraeth yn y gwynt,**
**Yn dwyn i'r cof a'r meddwl,**
**Amseroedd difyr cynt.**

**Cyfodi wnes yn union,**
**A rhodiais dan y lloer;**
**A gwelais berlau'r barrug gwyn,**
**O dan fy nhraed yn oer;**
**'Roedd sŵn a si y nant,**
**Yn llithro lawr y cwm,**
**Ac ambell fref hen ddafad wen,**
**O'r creigiau uchel llwm.**

**A chlywais yn y pellter draw,**
**Delynau aur fy ngwlad,**
**Yn galw ar y werin ffôl!**
**Yn ôl i reng y gad!**
**Mi glywais fiwglau main,**
**Yn galw ar bob un,**
**Yn dweud fod Owain eto'n fyw**
**A chleddyf wrth ei glun!**

**Daeth cryndod drwy fy nghorff**
**A chyffro yn fy ngwaed,**
**Wrth feddwl achub iaith fy ngwlad**
**A fu mor hir dan draed.**
**'Roedd gobaith 'nawr terfynu,**
**Gorthrymder blin y Sais,**
**Ac agor drws paradwys**
**Sef rhyddid oedd y cais!**

**Ond ciliodd nodau'r delyn,**
**Daeth golau clir y wawr,**
**Ac nid oedd Owain yno mwy,**
**Dim ond rhyw wacter mawr!**
**A chri'r gylfinir unig**
**Si'r nant dros gerrig mân,**
**A chanwr gorau Cymru,**
**Oedd Owain yn fy nhgân.**

*John V. Morris,*
*Rhianfa*
*Deiniolen*


**Noson o Ganu**
yng nghwmni
**HOGIA'R WYDDFA**
yng Nghlwb Eryri
Penisarwaun
Nos Sadwrn
CHWEFROR 15ed, 1986
am 8.30 o'r gloch
Mynediad: Di-dâl i aelodau 50c i eraill
CROESO I BAWB

# DEINIOLEN

**GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)**

FFAIR HAF: Cynhelir Ffair Haf yn Neuadd y Ganolfan nos Wener, 13 Mehefin am 7 o'r gloch. Gofynnir i gymdeithasau sy'n fodlon cynorthwyo gysylltu â Mr Gwyn Parry, ysgrifennydd y Ganolfan.

Trefnir y ffair gan bwyllgor rheoli'r Ganolfan.

DIOLCH: Dymuna Miss Kathleen J. Jones, Prenteg, ddiolch yn arbennig i brifathro, athrawon, staff y gegin a phlant Ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen am y rhodd gwerthfawr a dderbyniodd ar ei hymddeoliad. Hefyd dymuna ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd gan eraill.

Dymuna Eleri ac Eiriona Owen, 29 Stryd Newydd ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar ddathlu eu deunaw oed. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Alun Wyn Evans, Pentre Helen ddiolch yn garedig i bawb o ardal Deiniolen am eu cefnogaeth drwy brynu tocynnau raffl Nadolig tuag at 'Manor House Hospital'. Trosglwyddwyd dros £250 i'r ysbyty.

Dymuna Mrs Ann Jones, 35 Bro Rhiwen, Rhiwlas ddiolch i lu o gyfeillion am y cydymdeimlad a ddangoswyd yn ei phrofedigaeth fawr o golli ei mab mewn damwain.

Dymuna Mrs Margaret J. Evans a Dafydd Wyn, Maes y Dref, Clwt-y-bont ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, cyfeillion a chymdogion, am eu caredigrwydd, ac am bob cymorth a gafwyd ganddynt, yn ystod eu profedigaeth sydyn a thrist, o golli priod hoff a thad mor annwyl.

Diolch cynnes hefyd i'r meddyg teuluol, y Parch Trefor Lewis a Richard Jones, a hefyd i Mr Meirion Jones, Min Afon am eu cymorth parod.

Dymuna'r teulu ddiolch yn fawr iawn am y cardiau niferus a dderbyniasant.

Dymuna Andrew a Cheryl Ward, Porth y Gogledd ddiolch yn gynnes iawn i'r holl berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth fawr.

Dymuna Brigid M. Hughes, 4 Gwyrfai Terrace, Clwt-y-bont ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion oll am y llu cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd pan yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Ragfyr 18.

CYMDEITHAS YMDRECH Y CHWIORYDD, Disgwylfa MC: Cynhaliwyd cyfarfod olaf o'r flwyddyn 1985 o'r Gymdeithas uchod ar nos Iau, Rhagfyr 5 gyda gwasanaeth Nasdolig, â phob un o'r chwiorydd yn cymryd rhan. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mrs Miriam Lewis, llywydd, a diolchwyd i bawb am eu gwasanaeth. Anfonwyd cofion cynnes, yn arbennig at y rhai hynny a oedd yn wael yn ystod gwyliau'r Nadolig.

Dydd Sul, Rhagfyr 22 fe gafwyd gwasanaeth gan y plant, a dosbarthwyd anrhegion Nadolig iddynt yn y prynhawn. Nos Lun, Rhagfyr 23 cynhaliwyd Parti Nadolig i'r plant, ac yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr yno.

Cynhaliwyd gwasanaeth Cymun Undebol yn Eglwys Ebenezer ar fore dydd Nadolig. Diolchodd Mrs Jane Thorman Jones i'r swyddogion am eu gwasanaeth ar hyd y flwyddyn. I gloi'r noson cafwyd sêl 'moes a phryn' a chasglwyd arian sylweddol at yr achos. Rhoddwyd y te am y mis gan Mrs Miriam Lewis.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Iau, Chwefror 6, ac estynnir croeso cynnes i unrhyw un a ddymuna ddod.

Y SEINDORF: Ionawr 12 cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Seindorf yng Nghlwt-y-bont. Cadeiriodd Mr G. Oliver Jones. Cafwyd adroddiad boddhaol iawn o'r fantolen am y flwyddyn a aeth heibio. Aethpwyd ymlaen i ddewis pwyllgor am y flwyddyn nesaf. Roedd tymor tri aelod o'r pwyllgor yn dod i ben, sef Mr Alun Lewis, Rhydfadog, Mr Howell Lewis, Llys Annedd a Mr Gwyn Parry, Cynefin (a oedd yn aelod o'r seindorf). Diolchwyd iddynt gan y pwyllgor am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd. Codwyd tri aelod newydd sef Mr Ellis Wyn Williams, Stryd Deiniol, Mr Arthur Owen, Stryd Newydd a Mr J. Jones, Ceris.

Roedd y llyfrgellydd Mr Caradog Thomas yn dymuno rhoi'r gorau i'w swydd oherwydd amgylchiadau eraill. Penderfynwyd codi dau aelod yn eu lle, Mr John Anidi, Clwt-y-bont a Mr J.A. Parry, Bodawel. Felly'r swyddogion am y flwyddyn fydd – Ysfgifennydd: Mr M. Jones, Minafon, Clwt-y-bont, Trysorydd: Mr H.G. Jones, Llanrug, Cadeirydd: Mr G. Oliver Jones, Tŷ Gwyn, Llyfrgellydd: John Anidi, Clwt-y-bont a T.A. Parry, Bodawel, Gofalwr: Mr Thomas Williams, Pentre Helen.

Yn ystod y mis nesaf bydd y Seindorf yn brysur iawn. Cynhelir tair cystadleuaeth – Cystadleuaeth Radio Cymru, a dwy gystadleuaeth yn Southport, un ar Fawrth 23 a'r llall er cof am W. Rimmer, un o arwyr ym myd y Bandiau Pres ar Fawrth 28 yn Pontins.

Cyngerdd yn Pendalar a chyngerdd yn Sosial Club Bangor. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Enillwyr Clwb 200 am fis Rhagfyr a Ionawr:
Rhagfyr: 1. £25, Mrs Helen Lewis, Waen Fro, Deiniolen; 2. £15, Mrs Laura Williams, Tan-y-fron, Fachwen; 3. £5, Wendy Thomas, Penisarwaun, c.o. Caradog.
Ionawr: 1.£25, Mrs Carys Thomas, 4 Tai Dinorwig, Clwt-y-bont, 2. £15, Eilir Williams, 1 Pentre Helen, 3. £5, Mrs Munro, Glandŵr, Clwt-y-bont.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y ganolfan Ionawr 13 dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones, y llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol.

Cafwyd noson ddifyr iawn yn chwarae chwist dan ofal Mrs Gwen Hughes, ynghyd â gwerthiant 'moes a phryn' gyda Miss Jean Maeller yn gofalu am y bwrdd.

Diolchwyd i'r ddwy gan Mrs Rita Parry Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Williams a Mrs Betty Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Gwen Hughes.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Chwefror 3.

CYFARFOD CYHOEDDUS: Nos Fawrth, Ionawr 14, roedd Neuadd y Ganolfan yn orlawn o bentrefwyr o bob oed. Yr oeddynt wedi dod ynghyd i Gyfarfod Cyhoeddus i drafod y posibilrwydd o wella ansawdd ein pentref. Diolchwyd yn wresog gan y Cadeirydd, Mr Gwyn Parry, Cynefin (sydd hefyd yn Gadeirydd Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen), am iddynt wneud ymdrech arbennig i ddod i'r cyfarfod er gwaethaf y tywydd gerwin. Amlygwyd brawdgarwch a chyd-ddeall yn y trafodaethau agored, ac awgrymwyd amryw lwybrau a allai fod yn fanteisiol a phwrpasol o'u dilyn ymhellach.

Gwnaed pedwar penderfyniad ffurfiol i'w trosglwyddo i Gyngor Cymdeithas Llanddeiniolen am sylw pellach ar fyrder, sef:

**a) Gofyn i Gyngor Bwrdeistref Arfon i:**
**i) drefnu archwiliad swyddogol o Bank House a'i gwrtil, er mwyn tawelu meddwl y cyhoedd; nad oedd perygl i iechyd yno**
**ii) egluro'r defnydd cyfredol a wneir o'r hen Ficerdy, Llandinorwig, a chadarnhau bod y defnydd hwnnw yn cydymffurfio â'r caniatâd cynllunio (os oes caniatâd).**
**b) Gofyn i Gyngor Sir Gwynedd symud rhagblaen i godi waliau yng nghyffiniau Deiniolen-Dinorwig, sydd wedi eu dymchwel gan drafnidiaeth drom yn dilyn cynllun ad-ennill tir yn Ninorwig.**
**c) Pwyso ar Heddlu Gogledd Cymru, er diogelwch yr ifainc yn ein plith, i apwyntio rhagor o staff i'r 'Drug Squad' ym Mangor, gan fod lle cryf i amau bod carfan yn bodoli o fewn y gymdogaeth yn Neiniolen, sydd yn hyrwyddo cam-ddefnydd o gyffuriau ymhlith ieuenctid y pentref.**

Apwyntiwyd Panel hefyd i edrych i mewn ymhellach i nifer o'r awgrymiadau ymarferol a gyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod. Bydd y Panel sydd yn cynnwys, June Dymond, Dafydd Wyn Evans, y Cyng. J. James, Meri Wyn Jones, Dic Parry, Gwyn Parry, Gloria Thomas, Dafydd Williams a Robert Williams, yn cyfarfod nos Fercher, 22 Ionawr, ac yn adrodd yn ôl i Gyfarfod Cyhoeddus arall i'w gynnal fis Mawrth – gweler rhifyn nesaf o'r 'Eco' am fanylion llawn.

Er hwylustod i'r sawl a'i mwynhâi mae Mr Clifford Davies a Mr Brython Jones o'u caredigrwydd wedi caniatáu i 'flwch awgrymu' gael ei osod yn y llythyrdai yn Neiniolen a Chlwt-y-bont, ac felly gellir cyflwyno yno gynigion mewn ysgrifen i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

DIOLCH: Dymuna Mrs Mary Ellen Roberts, Plas Pengwaith (Voelas, Pentre Helen gynt) ddiolch o waelod calon am y llu anrhegion a chyfarchion a dderbyniodd yn ddiweddar ar achlysur ei phen-blwydd yn 93 mlwydd oed.

CYNGOR EGLWYSI: Y Parch Ifor Williams fydd yn arwain gwasanaeth dan nawdd y Cyngor, sydd i'w gynnal yng nghapel Libanus am saith o'r gloch, nos Lun, 10 Chwefror. Estynnir croeso cynnes i bawb.

MARW: Yn frawychus o sydyn, yn ei gartref, nos Sadwrn, Rhagfyr 14 bu farw Dylan Jones, 2 Rhes Gweledfa yn 15 mlwydd oed. Yr oedd yn fab annwyl i Mr a Mrs Donald Jones a brawd hoffus Aled a Rhian, a Gethin.

Bachgen tawel ei natur oedd Dylan ac yn mwynhau bywyd i'r eithaf. Roedd ganddo lu o ffrindiau'n lleol ac yng nghylch Bro'r Eco – roedd hyn yn amlwg iawn ddydd yr angladd pan ddaeth nifer fawr o blant Ysgol Brynrefail ynghyd i ffarwelio â ffrind hoffus a phoblogaidd. Bu'n aelod gwerthfawr o gapel Ebeneser a chafodd ei fagu ar aelwyd grefyddol lle rhoddir pwyslais mawr ar bethau gorau bywyd.

Roedd yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail ac yn barod i eistedd nifer o bynciau Lefel O yr haf hwn. Un o'i hoff bynciau oedd Astudiaeth Gyfrifiaduron, a threuliai lawer o'i amser hamdden yn gweithio gartref ar ei gyfrifiadur ei hun fel rhan o'i Astudiaeth ar gyfer ei waith ysgol.

Cyn marwolaeth ei daid, dangosodd gryn ddiddordeb mewn da pluog, ac arferai'r ddau fynd yn gyson i'r sioeau lleol i gystadlu gyda'r Ieir Bantam.

Bu marwolaeth sydyn Dylan yn ddychryn mawr i'w deulu, ffrindiau, athrawon ac i'r Gymuned gyfan. Caiff ei gofio fel bachgen tawel a chyfeillgar o bersonoliaeth a bydd chwithdod mawr ar ei ôl i bawb a gafodd y fraint o'i adnabod.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Donald Jones, Aled a Rhian, 2 Rhes Gweledfa ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a chyfeillion ymhell ac yn agos am





**STRYD FAWR, DEINIOLEN** Ffôn Llanberis **871210**
**Crefftau llechi:** arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.
**Arddangosfa o hen luniau chwarel.**
HEFYD YN SIOP
**FFYN A CHERRIG**
**STRYD FAWR, LLANBERIS**

**J.M. JONES**
**a'i FEIBION**
**GWAITH CERRIG BEDDAU**
**DEINIOLEN**
(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)
Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol
Cerrig o Bob Math ar Gael
**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)**
**Y FELINHELI 670124 (Nos)**

# DEINIOLEN

*(Parhad)*

bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl o golli mab a brawd annwyl. Diolch hefyd am y llu cardiau, llythyrau a'r holl alwadau ffôn, am y rhoddion hael, y blodau hardd ac am bresenoldeb pawb ddydd yr angladd.

Diolch arbennig i'r Parch Trefor Lewis, Teulu Caer Siddi, Teulu Cae Metta, Prifathro ac Athrawon Ysgol Brynrefail, Bwsiau K.M.P., Yr Heddwas Terry Jackson ac i Myrddin Pritchard, Llanberis am y trefniadau angladdol.

TEYRNGED i John David Evans, Maes y Dref, Clwt-y-bont gan Hen Gyfaill.

**Colled oedd colli Johnnie – un annwyl,**
**Un caredig i'w deulu;**
**Cymeriad hwn a erys byth,**
**Yn werth i'w efelychu.**

**Cymeriad parchus a phoblogaidd iawn yn ardal Gwaun Gynfi, ac yn wir yng Nghymru i gyd oedd John David Evans.**

**Ganwyd ef ym Mryn Difyr, Gallt y Foel yn y flwyddyn 1910. Collodd ei dad pan oedd yn chwe mlwydd oed, a bu raid i'w fam weddw fagu dau o blant bach mewn amser caled iawn. Bu farw ei frawd iau Guto yn ieuanc, yn dair ar hugain mlwydd oed.**

**Fel y rhelyw o fechgyn y cyfnod, aeth Johnnie i'r chwarel yn bedair ar ddeg oed, i weithio'n galed am gardod o gyflog. Pan dyfodd i fyny penderfynodd y gwnâi ei orau i geisio gwella amodau gweithio chwarelwyr Dinorwig. Daeth yn Gadeirydd Cyfrinfa'r chwarel am flynyddoedd, a gwnaeth ei orau i'w gyd-ddyn. Bu'n chwarelwr glew yn Ninorwig am dros ddeugain mlynedd. Bu hefyd yn cynrychioli ei ardal fel Cynghorydd am gyfnod maith.**

**'Roedd John David Evans yn fardd cadeiriol llwyddiannus, wedi ennill mewn nifer o eisteddfodau lledled Cymru. Yr oedd hefyd yn awdur tri o lyfrau sef 'Hiwmor y Chwarelwr', 'Myfyrion Hen Chwarelwr' a 'Cherddi J.D. Evans' ac fe erys llawer o'i waith barddonol ar ôl rhai annwyl ym mynwentydd y sir.**

**Bu'n byw bywyd glân, a gofal o'i gartref yn annwyl iawn ganddo. Bu'n ddeacon yng Nghapel bach Maes y Dref am flynyddoedd lawer, a bu Maggie Evans ac yntau yn glanhau a gofalu am y capel, hyd nes y bu rhaid cau drysau'r hen gapel bach, a loes a fu hynny iddo. Diolch i'w briod a'r teulu am fod mor ofalus ohono yn ystod ei waeledd.**

**Colled bersonol i mi oedd colli cyfaill mor hawddgar â J.D. Evans, ac yn sicr mae'r ardal yn dlotach o golli un o'i chymeriadau mwyaf anwylaf a hoffus. Bydd chwithdod mawr ar ei ôl, oherwydd prin iawn heddiw yw cymeriadau fel Joni lard.**

**Coffa am John David Evans:**

**Mae'r ardal yn segur a thawel,**
**Rhaid hebrwng hen gyfaill i'w fedd,**
**Fel llawer cydweithiwr adwaenwn,**
**O'i orchwyl caiff huno mewn hedd;**
**Ond colled a erys i'r weddw dan hiraeth,**
**Am un mor garedig i'w deulu a fu,**
**Do, collodd anwyldeb ei phriod hoff, cu.**

**Fe erys y coffa amdano,**
**Mewn llyfrau, mewn pennill a chân,**
**Cans hoffai gael cyfansoddi,**
**Yn dawel wrth ochr y tân;**
**Ces lawer mwynhâd yn ei gwmni,**
**A'i wrando yn adrodd ei waith,**
**Tawelodd y llais oedd gynt mor fwyn,**
**Daeth angau gan adael ei graith.**

**Un arall o'r fro a ymfudodd,**
**I wlad heb ddim pryder i fyw,**
**'Roedd breichiau agored i'w ddisgwyl**
**Yn ddiogel i fynwes ei Dduw;**
**Mae'n awr ymhlith yr angylion,**
**Sy'n canu am gariad yr Oen,**
**Y canu a bery'n ddi-ddarfod,**
**Heb iddo ddim cystudd na phoen.**

**R.H. JONES**
**Llwyn Onn, Clwt-y-bont**

## *LLYTHYR AT DRIGOLION DEINIOLEN A'R CYLCH*

*Annwyl Gyfeillion,*

*Diolchaf o galon i chi am eich haelioni tuag ataf ar achlysur fy ymddeoliad.*

*Bûm yn dysgu yn Ysgol Gwaun Gynfi am agos i ugain mlynedd ac mae'n rhaid i mi ddweud y buont yn flynyddoedd hapus iawn i mi. Cymeraf y cyfle i ddiolch i'r plant a'u rhieni a'm cydweithwyr am y blynyddoedd hapus hyn.*

*Dymunaf yn dda i'm holynydd, Mr Gwynfryn Fraser Jones; gwn y bydd yntau llawn mor hapus yn eich plith.*

*Wrth reswm ni fyddaf yn torri cysylltiad yn llwyr efo Deiniolen, oherwydd byddaf yn edrych ymlaen yn eiddgar am 'Eco'r Wyddfa' i gael hanes a helyntion y pentref.*

*Yn gywir,*
*Lars J. Larsen*

MARWOLAETH: Yn frawychus o sydyn yn ei gartref, 21 Rhydfadog ar Ionawr 7, bu farw Mr Gwynfryn Jones (Gwyn Fron Deg). Cyn-chwarelwr oedd Gwyn, ac un fu'n gweithio mewn gweithfeydd eraill yn y cylch wedi iddo orffen yn y chwarel.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i briod Phyllis, merch o Lerpwl a gyfarfu pan aeth i wella mewn ysbyty yn y ddinas honno ar ei ddychweliad o'r rhyfel. Gedy hefyd ferch, Joyce a'i phriod Edward, o Dregarth. Bu ei angladd yn Eglwys Llanddeiniolen, ddydd Sadwrn, Ionawr 11 dan ofal y Parchn Richard Jones a Trefor Lewis.

Fe hoffai'r holl deulu ddiolch i bawb am bob gair o gydymdeimlad drwy gerdyn, llythyr neu ar lafar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

GWELLHAD BUAN: i Mr W.H. Jones, Waen Goch (William Huw Bwchtiar) a gafodd ddamwain a throi ei goes cyn y Nadolig. Bu Mr a Mrs Jones yn aros am gyfnod mewn gwesty'r henoed ym Mhenmaenmawr.

Da clywed fod Bobbie Grindley, Pentre Helen yn gwella ar ôl derbyn triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

DIOLCH: Dymuna Margaret a Colin Randall, Arosfa, Stryd Ucha (High Street) ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniont ar achlysur genedigaeth mab, James Andrew. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Norman ac Emily Roberts, Rhoslan, Stryd Fawr ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd, cardiau, arian ac anrhegion ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Amanda Lynne – diolch yn fawr i bawb.

DYWEDDÏAD: Dymuniadau gorau i Carys Williams, 11 Rhes Faenol ar ei dyweddïad â Mark Taylor o Fethesda.

Dymuna Carys ddiolch i'w theulu a chymdogion oll am yr anrhegion a'r cardiau.

ANRHEGION: Aeth wyth o blant Ysgol Sul Disgwylfa ar ymweliad ag Ysbyty Gwynedd prynhawn Mawrth, Ionawr 21. Pwrpas yr ymweliad oedd cyflwyno nifer o deganau dim gwaeth na newydd i Ward y Plant. Cafodd y plant groeso cynnes gan y staff sy'n cynorthwyo i ddiddanu plant tra'n aros yn yr ysbyty am driniaeth. Diolchir i blant yr Ysgol Sul am eu meddwlgarwch.

CYMHORTHAU MEDDYGOL: Ar ddechrau mis Tachwedd gwelwyd Mrs Gwen Griffiths, Y Fron yn gyrru ei char gyda 'dyn' dieithr yn eistedd wrth ei hochr. Ond, rhag ofn i Draenog feddwl bod ganddo sgŵp dyma eglurhâd.

Gan fod Tachwedd 5 yn agosáu gwnaeth teulu'r Fron Guto Ffowc nobl iawn ond cyn ei osod ar y goelcerth aethant o amgylch y pentref i godi arian tuag at Gronfa Cymhorthau Meddygol yr ardal. Yn dilyn eu taith bu i Iolo, Alun a Sian gyflwyno £27.50 tuag at y Gronfa. Diolchir i'r plant a Mrs Griffith ac hefyd i'r 'dyn dieithr'.


**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**


# DINORWIG


**GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)**


CANU CAROLAU: Yn y Ganolfan, Rhagfyr 17, bu cyfarfod o ganu carolau. Cymerwyd rhan gan yr aelodau. Hefyd cymerwyd rhan yn y canu gan Delyth Price, Tros yr Afon, Pentir, Sara Wood, Fronheulog a Miss B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, a chaed darlleniadau gan Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch, Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir a Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir. Trefnwyd y carolau a'r darlleniadau gan Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin, Deiniolen a Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol. Cyfeiliwyd ac arweiniwyd gan Miss Olwen B. Roberts. Cafwyd paned o de a mins pei yn hanner cyntaf y cyfarfod wedi eu trefnu gan swyddogion y pwyllgor. Dymunir ar ran yr aelodau i ddiolch iddynt am eu gwaith.

DAMWAIN: Cafodd Mrs Katie L. Hughes ddamwain i'w braich. Wedi triniaeth cafodd ddod adref o Ysbyty Gwynedd. Da deall ei bod yn gwella. Parhaed i wella.

YN YR YSBYTY: Aed â Mr Robert Jones, 7 Maes Eilian i Ysbyty Gwynedd, Bangor am lawdriniaeth feddygol. Deallwn ei fod yn well. Parhaed i wella.

MARW: Yn dawel, Rhagfyr 24, 1985, yn Ysbyty Bryn Seiont wedi gwaeledd hir a maith bu farw Mrs Ann Catherine Jones, (gynt o 3 Bro Elidir) yn 41 mlwydd oed – mam annwyl Dafydd Alwyn ac Wyn, a chwaer hoffus Eirlys. Bu'r angladd yng Nghapel Dinorwig MC, Rhagfyr 31, 1985. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Macpela. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch Gwynfor Williams, B.E.M., Llanberis. Diolchir iddo a Mr E.W. Pritchard yr Ymgymerwr, Llanberis am eu gwasanaeth.

O'R YSBYTY: Da yw cael croesawu Mr Robert Jones, 7 Maes Eilian o Ysbyty Gwynedd wedi llawdriniaeth. Parhaed i wella. Dymuniadau gorau iddo ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed ar Ionawr 16 eleni.

Dymuniadau gorau i Mr David J. Thomas ar gyrraedd 70 mlwydd oed yn Ionawr eleni.

CYFARFOD GWEDDI: Yn y Ganolfan cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan nawdd y Gymdeithas. Roedd y trefniadau yng ngofal Miss Ellen W. Jones. Cyfeiliwyd gan Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol. Cymerwyd rhan mewn gweddïo, darlleniadau a'r emynau gan Mr D.L. Hughes, 2 Maes Eilian; Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian; Mrs Nellie Williams, 2 Bro Elidir; Mr David J. Thomas, 8 Maes Eilian; Mrs Irene Morris, 41 Maes Eilian; Mr a Mrs Hugh Williams, Paradwys, Ynys Môn; Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol; Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian; Mrs Megan Morris, Minffordd; Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch; Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir; Mrs Katie Griffith, Arwelfa; Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian a Mrs O.R. Williams, 2 Bro Elidir.

DIOLCHIADAU: Dymuna Margaret Jones, Foel ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau a phob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Ann Jones, 35 Bro Rhiwen, Rhiwlas ddiolch i lu o gyfeillion am eu cydymdeimlad a ddangoswyd yn ei phrofedigaeth fawr o golli ei mab mewn damwain.

Mae David John Thomas, 8 Maes Eilian yn dymuno diolch yn gynnes i gymdogion, cyfeillion a pherthnasau am gardiau pen-blwydd a rhoddion a dderbyniodd pan gyrhaeddodd yr oedran teg o 70 yn gynnar y mis hwn (Ionawr).




**BECWS DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

**OSMOND SHAW**
**DEINIOLEN**

Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
GWASANAETH
ATEB
FFÔN 24 AWR
**LLANBERIS 870545**



*Heffer Mr Jones, Bryn Bannon, Bethel a ddyfarnwyd yr anifail gorau yn ei dosbarth a'r anifail gorau yn yr arwerthiant Nadolig yn Llangefni*



PSSST ... 'Fedra i ddim dal! Mae'n rhaid i mi gael dweud wrthach chi. Eniwe, 'dach chi i gyd yn gwbod ma' siŵr. Y ...? 'Dach chi ddim ...? Wel, am **Ffug Eisteddfod Eco'r Wyddfa** siŵr!

Hei, yn ôl pob sôn mae 'na lot o bobol yn ymarfar yn galad iawn i fod yn wirion ar gyfer nos Wenar, ... ia, tad, nos Wenar nesa, **Chwefror 7 am 7.30.** Mi fyddwch chi yna, byddwch?

# APÊL TŶ MAWR

Beth amser yn ôl daeth Tŷ Mawr Wybrnant i feddiant yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; hen ffermdy diarffordd ychydig filltiroedd o Fetws-y-coed a man geni yr Esgob William Morgan, y person cyntaf i gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg a goruchwylio'r gwaith o'i argraffu yn 1588, mewn cyfnod cynnar iawn yn hanes argraffu.

Yn 1988 byddwn yn dathlu pedwar can mlwyddiant y cyfieithiad a gafodd effaith ddofn ar yr iaith Gymraeg a'i threftadaeth, crefydd a bywyd y werin.

Nid oes cofadail penodol yn bod i'r Esgob William Morgan. Mae un ystafell yn Nhŷ Mawr wedi bod ar agor i'r cyhoedd ers peth amser ac mae nifer dda wedi ymweld â'r tŷ yn ystod y cyfnod yma. Ar gyfer y pedwar canmlwyddiant gobeithia'r Ymddiriedolaeth adfer Tŷ Mawr gystal ag sydd bosibl i'r hyn ydoedd yn 1588, fel cofadail i'r Esgob. Mae addewidion am rai dodrefn addas eisoes wedi eu derbyn.

Er mwyn ein galluogi i wneud y gwaith yma, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi sefydlu Apêl Tŷ Mawr – nod yr Apêl fydd £175,000 a gobeithir dechrau'r gwaith eleni. 'Rydym hanner y ffordd at gyrraedd y nod yma yn awr ond mae angen £40,000 arall cyn y medrwn ddechrau'r gwaith. Pan fyddwn wedi casglu hyn byddwn yn derbyn swm cyffelyb o ffynonellau eraill a teimla'r pwyllgor mai dyma'r amser y gallwn fod yn sicr ein bod wedi cyrraedd y targed.

Mae Apêl Tŷ Mawr yn un arbennig iawn i bawb sydd â diddordeb yn yr iaith Gymraeg a'i threftadaeth a bywyd crefyddol. Mae rhai eisoes wedi cyfrannu. Gofynnwn am gefnogaeth pawb – gallwch ein helpu gyda chyfraniad neu drwy gynnal bore coffi, dewch a phrynwch ac yn y blaen.

Os hoffech gyfrannu fel unigolyn, gallwch ein cefnogi trwy fod yn 'Gyfaill Tŷ Mawr'. Bydd cyfraniadau o £10 neu fwy yn cael eu cofnodi yn ein llyfr 'Cyfeillion'; un o ddau lyfr wedi eu paratoi yn arbennig ar gyfer yr Apêl gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru: 'Er Cof' yw'r llyfr arall; llyfr a fydd yn cynnwys cofnod o berthynas neu gyfaill am gyfraniad o £10 neu fwy. Gwneir cofnod o dudalen gyfan am gyfraniad o £100 neu fwy yn y ddau lyfr.

Gallwch anfon eich cyfraniadau i 'Apêl Tŷ Mawr', Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Sgwâr y Drindod, Llandudno, Gwynedd LL30 2DE neu i Gadeirydd yr Apêl, Mrs Anne Murphy, Plas Nantcol, Llanbedr, Gwynedd LL45 2PL, a fydd yn barod i roi mwy o wybodaeth, os dymunwch.


MAE'R
**SAMARIAID**
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
**BANGOR**
**354646**

**Y BISTRO**
**LLANBERIS**
Amser Cinio o ddydd Llun i ddydd Gwener
Gwahoddir partïon o rhwng 6 a 15 i wylio Nerys yn coginio ac ymuno yn y gwaith – Pris **£7.50** yn cynnwys cinio.
Bob nos ag eithrio nos Sadwrn pryd blasus 3 chwrs yn defnyddio bwydydd tymhorol gorau **£8.00**


**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

**PLYGU'R ECO**

Plygir yr Eco nesaf nos lau, Chwefror 27 yn Ysgol Cwm-y-glo am 6.00 o'r gloch.
Dowch yn llu!


**D. LL. OWEN**
**1 BRYN AFON TERRACE, LLANRUG**
**FFÔN C'FON 76699**
**Cludo Llwythi Bychan a Chlirio Safleoedd**
**Llwythi 3 Tunnell**
**Hefyd Trin Gerddi a Thorri Gwair**

***W.J.GRIFFITH***
**PLYMAR A GOSODWR**
**GWRES CANOLOG**
**PANT TIRION, LLANRUG**
*Ffôn: Caernarfon 3248*
**GOSODWR SWYDDOGOL SYSTEMAU GWRESOGI OLEW**
**GWRES BP**
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
*Dim un dasg rhy fychan, Dim un dasg rhy fawr..*

Dysgwch yrru'r car gydag
**Y.Y.O.**
**YSGOL YRRU OFALUS**
* **Gwasanaeth 7 diwnod**
* **O ddrws i ddrws**
* **Control Deuol**
**D L**
**PRITCHARD**
**43 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**CAERNARFON 5112**
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth


- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

**Nadolig Llawen i bawb**



**Perchennog: E.P. Hughes**
**MODURDY DOLYDD**
**GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562**

# CROESAIR CHWEFROR



**AR DRAWS:**
1. Perthynas o America (4,3)
5. Mwythau (5)
8. Heb fodloni (5)
9. Pentref Dai Jones (7)
10. Nid ei liw o sy'n achosi'r drwg (9)
12. Yn perthyn i ni (3)
13. Pwnc (6)
14. Adeiladau crefyddol (6)
17. Mynd i'w chyfeiriad (3)
18. Grawn (9)
20. Ehangodd (7)
21. Cyflwr y corff (5)
23. Emynau a ..... (5)
24. Dyma ddywedwch ar ôl cwblhau'r croesair efallai! (1'1, 5)

**I LAWR:**
1. Hunanymddiddan (5)
2. ... clap (3)
3. Synau (7)
4. Pellter (6)
5. Magl (5)
6. Mae'n rhannu dinas yn Ewrop (3,6)
7. Disgleirio (7)
11. Arlywydd cyntaf America (9)
13. Helbul (7)
15. Traul (7)
16. Bod â'r modd i brynu (6)
18. Ceg (5)
19. " .. ... ar y tro" meddai cân Trebor Edwards (2,3)
22. Gwyn y gwêl y frân ei ... (3)

Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th. Gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu. Anfonwch eich cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

Enillydd Croesair Nadolig: **Sioned Haf, 6 Rhes Victoria, Caernarfon.**

## ATAL Y WOBR

Drwg iawn gennym ddweud nad oedd yr un o'r dyrnaid a gystadlodd yn ein cystadleuaeth Nadolig yn deilwng o'r wobr o £5. Rydych, siawns, yn cofio'r llun o'r codwr pwysau ac El Bandito y tu ôl iddo yn ein rhifyn diwethaf. Beth oeddynt yn ei ddweud? Ni ddaeth yr awen heibio i chwi mae'n amlwg – ddim hyd yn oed â £5 i'w hennill.


MERCHED, DYNION, PLANT!
I gael torri a thrin eich gwallt
YN EICH CARTREF
cysylltwch â
**CHERYL WARD**
**Mobile Hairdressing**
**9 Porth Gogledd**
**DEINIOLEN**
Ffôn: Llanberis
**870911**
i drefnu amser



**E.W.Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**
Ffôn: 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI


## *Dyddiadur y Mis*

3 Llun, CWM-Y-GLO: Noson Goffi dan nawdd Cangen yr Urdd yn y Ganolfan am 7.00. Yr elw er budd yr Adran.
DEINIOLEN: Sefydliad y Merched.
4, Mawrth, BETHEL: Y Gymdeithas Lenyddol.
5, Mercher, CWM-Y-GLO: Clwb y Mamau.
PENISARWAUN: Adran yr Urdd – 'Byd Natur' gyda Mr Duncan Brown.
6, Iau, CWM-Y-GLO: Clwb Pobl y Cwm.
DEINIOLEN: Cymdeithas Chwiorydd Capel Disgwylfa.
WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai
Sefydliad y Merched – Sgwrs gan y Parch a Mrs Ifor Rowlands, Caernarfon ar eu hymweliad ag Israel.
7, Gwener, YR ARDAL: Clwb Eryri. Ffug Eisteddfod Bro Eco'r Wyddfa yn Ysgol Brynrefail am 7.30.
LLANBERIS: Te yr Henoed.
Chwefror 10 a 11, YR ARDAL: Hanner Tymor yr Ysgolion.
10, Llun, DEINIOLEN: Y Cyngor Eglwysi.
LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
11, Mawrth, LLANRUG: Merched y Wawr – sgwrs gan y Parch Harri Parri, Caernarfon.
12, Mercher, LLANRUG: Noson dan nawdd Cangen Plaid Cymru yng ngwmni John Ogwen yn yr Ysgol Gynradd am 7.30. Pris mynediad 25c. Croeso cynnes i bawb.
CWM-Y-GLO: Gyrfa Chwist yn yr Ysgol Gymuned am 7.30.
BETHEL: Merched y Wawr – sgwrs gan Miss Shopia Parry Jones ar 'Hen Bethau'.
13, Iau, DINORWIG: Y Gymdeithas Lenyddol Undebol – sgwrs gan Mr David J. Jones, Caernarfon yn y Ganolfan am 7.00.
DEINIOLEN: Plaid Cymru – noson yng nghwmni Mr Richard Morris Jones yn y Ganolfan am 7.00.
19, Mercher, Yr ARDAL: Cymdeithas Hanes Bro'r Eco – Olrhain Achau gydag Iwan Roberts, Llanrug, yn Ysgol Gynradd Bethel.
21, Gwener, LLANBERIS: Te yr Henoed.
22, Sadwrn, YR ARDAL: Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail.
24, Llun, LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
26, Mercher, CWM-Y-GLO: Gyrfa Chwist yn yr Ysgol Gymuned am 7.30.
27, Iau, DINORWIG: Y Gymdeithas Lenyddol Undebol – Noson ngofal y Parch Ifor L. Williams, yn y Ganolfan am 7.00.

### YN EISIAU

Rhywun i lunio Croesair yr Eco. Mae'n amlwg o'ch ymateb bob mis fod gan amryw ohonoch ddiddordeb mewn ateb croeseiriau. Ond beth am eu ffurfio? Cysylltwch â Twrog Jones, 23 Glanffynnon os oes gennych ddiddordeb.

### DYDDIADAU I'W COFIO

**Mawrth 1: Cinio Gŵyl Dewi Cangen Plaid Cymru Deiniolen** ym Mhlas Tan Dinas.
Mawrth 3: Cinio Blynyddol Cymdeithas Lenyddol **Bethel** yn y Foelas, Llanrug.


**Padarn Lake Hotel**
Perchnogion
Terry a Val Skilki
**STRYD FAWR**
**LLANBERIS**
**870260**

- Beth am bryd o fwyd yn ein Bar Lolfa newydd, hardd a chyfforddus, sydd ar agor amser cinio a fin nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Yn ein ystafell fwyta hefyd cewch ddewis rhagorol o brydau Table d'Hote ac À la Carte. Croesewir plant.
- Mae ein llofftydd newydd gael eu hadnewyddu'n foethus, llawer gyda bathrwm, teledu lliw ac offer gwneud te a choffi. Gellir gweld y llyn neu'r mynyddoedd o'r rhan fwyaf ohonynt.
- Ceir adloniant yn ein Bar Lolfa bob nos Sul, yn aml yn cynnwys talentau Cymraeg lleol.



# CHWARAEON

## Y GOLOFN SNWCER

### gan Aeron Jones

**Gyda dim ond tua 3 mis i fynd, mae'r ddau dîm o Lanrug ar y brig, ac mae tîm cochion Llanrug bron yn sicr o esgyn i'r Adran Gyntaf. Disgyn mae tîm Duon Deiniolen ac hefyd tîm Glesion Deiniolen tra bod tîm cochion Deiniolen yn dal eu tir.**

**Mae digon o amser i'r ddau dîm o Fethel wneud argraff ar y Gynghrair ond iddynt beidio a'i gadael rhy hwyr.**

**Nid yw tîm Llanberis yn cael y canlyniadau ffafriol ar hyn o bryd, ond efallai y bydd newid noson chwarae o nos Fawrth i nos Lun yn gwella'r canlyniadau hefyd.**

**CANLYNIADAU MIS IONAWR**
**ADRAN A:**
**Gleision Llanrug**
6-0 Ceidwadwyr Bangor (Duon)
5-1 Duon Groeslon
**Duon Deiniolen**
4-2 Gleision Nantlle
3-3 Gleision Crosville Caernarfon
4-2 Gleision Nantlle
**ADRAN B**
**Cochion Llanrug**
4-2 Cochion Marbryn
3-3 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)
5-1 Cochion Groeslon
**Gleision Deiniolen**
4-2 Duon Bethesda
2-4 Nantlle Brown
**Cochion Deiniolen**
4-2 Duon Bethel
3-3 Cochion Bethesda
5-1 Nantlle Gwyrdd
**Duon Bethel**
2-4 Cochion Deiniolen
3-3 Duon Llanfair P.G.
2-4 Gleision Bethel
**Gleision Bethel**
2-4 Llanberis
4-2 Duon Bethel
**Llanberis**
6-0 Duon Llanfair P.G.
4-2 Gleision Bethel
6-0 Duon Bethesda

## Y GYNGHRAIR

| | Ch | En | Cyf | Colli | O Bl | Yn Er | +/− | Pt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ADRAN A** | | | | | | | | |
| Gls Llanrug | 15 | 13 | 0 | 2 | 62 | 28 | +34 | 26 |
| Du Deiniolen | 15 | 8 | 3 | 4 | 60 | 48 | +18 | 19 |
| **ADRAN B** | | | | | | | | |
| Coch Llanrug | 16 | 11 | 4 | 1 | 65 | 31 | +34 | 26 |
| Coch Deiniolen | 16 | 9 | 2 | 5 | 56 | 40 | +16 | 20 |
| Llanberis | 16 | 8 | 3 | 5 | 57 | 39 | +18 | 19 |
| Glas Deiniolen | 15 | 5 | 4 | 6 | 45 | 51 | −6 | 14 |
| Du Bethel | 16 | 5 | 3 | 8 | 54 | 60 | −6 | 13 |
| Glas Bethel | 14 | 4 | 4 | 6 | 39 | 45 | −6 | 12 |

## CYMERIADAU OD O FYD CHWARAEON

*Annwyl Olygydd,*

*Darllenais yr erthygl ar gymeriadau od chwaraeon yn rhifyn Rhagfyr o'r 'Eco'. Ysgrifennaf bwt o rhai o'm profiadau personol o'r meysydd chwarae.*

*Y gêm griced fwyaf anhygoel i mi chwarae ynddi oedd i dîm Bangor yn erbyn Llanrwst yn 1967. Batiodd Llanrwst gyntaf ar lain perffaith ar ddiwrnod crasboeth o Awst. Ar ôl hanner awr roeddent i gyd allan am gyfanswm o DDAU rediad ac roedd un o'r rhediadau yn belen di-gyfrif (no-bull). Y batiwr olaf, sgoriodd yr unig rediad arall. Cymerodd Bangor tair pelen i ennill y gêm. Oherwydd y gorffen buan, trefnwyd ail gêm. O dan yr un amgylchiadau sgoriodd Llanrwst 145-8 a Bangor 88-5 am gêm gyfartal. Rhyfedd o ddiwrnod!*

*Rydym ni wedi hen arfer â chlywed Cymraeg ar feysydd pêl-droed lleol — ond nid felly yng Nghaerdydd. Yn 1972 roeddwn i'n chwarae i dîm pêl-droed y Cymric yn erbyn Sblott ar un o barciau'r brifddinas. Ar ôl rhyw hanner awr amharwyd ar y gêm pan gerddodd ysgrifennydd y gynghrair ar y cae. Oherwydd bod ein tîm ni yn siarad Cymraeg — peth naturiol yn enwedig gan fod saith o Gogs yn y tîm — roedd am ein reportio i'r Race Relations Board. (Doedd termau Cymraeg ac achos Bae Colwyn heb fod amser hynny.) Yn ei dyb ef, roeddem yn chwarae "English League Football" ac felly Saesneg oedd yr iaith i fod. Gan feddwl mai adran 4 o Gynghrair Caerdydd a'r Cylch oeddem yn chwarae ynddi, roeddem yn teimlo reit bwysig. I wneud pethau yn waeth, ar y ffordd o'r cae ceisiodd dau aelod o dîm Sblott, geisio taro Moi Parri a minnau gyda beic modur. Dyddiau difyr — bron cystal â Llechid yn erbyn Llanbêr ers talwm.*


*Wrth fatio yn erbyn tîm enwog Marchwiail rhyw ddau dymor yn ôl cefais fy nharo ar fy mhen gan belen gan eu bowliwr lled gyflym John Newcombe. Disgynnais ar fy wiced, ac yn ôl y rheolau roeddwn allan "wedi taro fy wiced". Ar ôl deffro, synnais o ddeall nad oeddwn allan, achos roedd y dyfarnwr wedi penderfynu fy mod yn anymwybodol pan drewais fy wiced!*

*Chwarae i Sir Gaernarfon yn erbyn Sir Feirionnydd rhyw ddeng mlynedd yn ôl. Roedd y gêm yn hwyr yn cychwyn gan na ddeuai tîm Meirionnydd o'r ystafell newid. Ar ôl chwarter awr daeth y capten gyda'r esboniad. Roedd deuddeg chwaraewr wedi troi fyny, ac roedd y capten eisiau gadael un o chwaraewyr Bala allan o'r tîm. Y broblem oedd — y chwaraewr hwnnw oedd wedi dod â'r bêl.*

*Mae ochor drist i chwaraeon hefyd. Enillais y cyntaf o'm un ar ddeg 'cap' criced dros ysgolion Cymru ym Melfast yn erbyn Iwerddon — unedig wrth gwrs, yn 1965. Cofiaf yn eglur y dychryn o ddod o'r llong ym Melfast a gweld yr heddlu â gynnau — y 'B' Specials. Aros gyda theulu Babyddol am ddwy noson a chael dim ond propaganda ddi-ddiwedd. Clywed am y sefyllfa dai gwarthus, diffyg cyfle gwaith, anhegwch yr heddlu ac yn y blaen. Y noson gyntaf y ddau dîm yn cael gwledd yn Stormont — a'r prif weinidog Chichester-Clarke yn ein hebrwng o gwmpas. Sylwi nad oedd y pum Gwyddel o'r De yn gwrthod dod i mewn i Stormont o gwbwl. Hawdd oedd i ni sylweddoli cefndir y problemau oedd i ddod o 1969 ymlaen.*

*Richard Llwyd Jones*
*5 Y Ddôl*
*Bethel*

## CANŴIO O'R CRAWIAU



Mae Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Plas Menai wedi bod wrthi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ceisio caniatâd i ddefnyddio'r rhannau hynny o afon Seiont o Bont Crawiau, Llanrug i'r Aber yng Nghaernarfon ar gyfer cyrsiau dysgu canwio. Ar hyn o bryd, rhaid teithio i'r Bala i gynnar y cyrsiau hyn.

Mae'r gwaith o geisio caniatâd wedi golygu cysylltu â thua pump ar hugain o wahanol dirfeddianwyr, yn ogystal ag â Chymdeithas Bysgota Gwyrfai, Seiont a Llyfni, sy'n dal yr hawliau pysgota ar yr afon.

Deallwn fod Cyngor Bwrdeistref Arfon eisoes wedi cytuno i ganiatáu i Blas Menai ddefnyddio'r afon o Bont Seiont i'r Aber. Y gobaith yw cael defnyddio'r afon o Bont Crawiau rhwng misoedd Ionawr ac Ebrill fel na fydd y cyrsiau canŵio yn amharu ar bleser y pysgotwyr lleol.

Mae'r trafodaethau yn parhau, a disgwylir penderfyniad yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

## PÊLDROED YN GRYNO

Cyfnod cymysglyd iawn fu hi i dimau pêl-droed yr ardal ers y Nadolig, a phan gollodd Llanberis yn erbyn Caergybi yng Nghwpan Iau Gogledd Cymru, diflannodd pob gobaith am dlws y Gogledd. Chwith meddwl na fydd unrhyw un o dimau'r fro yn y rownd nesaf; peth dieithr iawn o gofio fod Llanrug a Llanberis wedi bod yn ddeiliaid y Cwpan hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn y Gynghrair mae pethau'n fwy calonogol i Lanberis. Ennill eto'r Sadwrn diwethaf o saith gôl i ddwy yn y Bontnewydd, ac felly, cadw eu safle ar y brig. Ond mae tîm y Penrhyndeudraeth a thîm Mountain Rangers yn dynn wrth eu sodlau, a gemau wrth gefn ganddynt. Wedi cyfnod gweddol lewyrchus ar ddechrau Ionawr, colli fu hanes Llanrug ar ôl taith i Nefyn, a hynny o ddwy gôl i un. Daeth Bethel yn gyfartal yn eu gêm hwy yn erbyn tîm Caernarfon Juniors. Tair gôl yr un oedd y sgôr terfynol.

| | Ch | E | Cyf | Colli | O Blaid | Yn Erbyn | Pwynt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Loco Llanrug | 15 | 10 | 3 | 2 | 58 | 18 | 23 |
| Llanrug | 17 | 8 | 1 | 8 | 38 | 38 | 17 |
| Bethel | 15 | 3 | 3 | 9 | 29 | 52 | 8 |

### APÊL

**Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yr Eco ym mis Mawrth. Mae angen rhywun i fod yn gyfrifol am gasglu deunydd i'r dudalen Chwaraeon. Cysylltwch ag unrhyw un o'r golygyddion.**